



AWDURDOD  
CYMWYSTERAU,  
CWRICWLWM AC ASESU  
CYMRU

QUALIFICATIONS,  
CURRICULUM &  
ASSESSMENT AUTHORITY  
FOR WALES



## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/2003

Hyrwyddo Addysg a Hyfforddiant:  
Hybu Ansawdd a Chydlynid



Heuldr gart  
Lywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Assembly Government



## Cynnwys

<b>Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003</b>		<b>Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003</b>	
Rôl yr Awdurdod	1	Rhagair i'r cyfrifon	35
Cyflwyniad	2	Datganiad o gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr	38
Aelodau'r Awdurdod	4	Datganiad o'r system reoli fewnol	39
Cofrestr buddiannau'r aelodau	4	Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd	
Gweinyddiaeth yr Awdurdod	5	Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	40
Dyraniad gwariant yr Awdurdod	8	Cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003	41
Nodau'r Awdurdod	9	Mantolen ar 31 Mawrth 2003	42
Cyflawniadau'r Awdurdod 2002/2003	10	Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003	43
		Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003	44

© Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) 2003  
Cyf: AC/CM/0531  
ISBN 1 86112 534 8

Gellir copïo detholion o'r ddogfen hon ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell ac na wneir copïau ond yn y sefydliad addysgol lle'u defnyddir hwy. Ni cheir gwerthu, llogi na bynhyca'r copïau hyn i unrhyw unigolyn, corff na sefydliad arall. Mae pob hawl yn aros gyda'r cyhoeddwr.

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX

Rhif ffôn: (029) 20375400 Ffacs: (029) 20343612 e-bost: info@accac.org.uk



**AWDURDOD  
CYMWYSTERAU,  
CWRICWLWM AC ASESU  
CYMRU**

**QUALIFICATIONS,  
CURRICULUM &  
ASSESSMENT AUTHORITY  
FOR WALES**

Adeiladau'r Castell  
Stryd Womanby  
Caerdydd CF10 1SX  
**Ffôn. 029 2037 5400**  
**Ffacs. 029 2034 3612**  
**e-bost [info@accac.org.uk](mailto:info@accac.org.uk)**

Castle Buildings  
Womanby Street  
Cardiff CF10 1SX  
**Tel. 029 2037 5400**  
**Fax. 029 2034 3612**  
**e-mail [info@accac.org.uk](mailto:info@accac.org.uk)**

Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC  
Prif Weinidog Cymru  
Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Bae Caerdydd  
CAERDYDD  
CF99 1NA

Ein Cyf: 01-11-009

Eich Cyf:

Medi 2003

Annwyl Brif Weinidog Cymru

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno i chi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003.

Adolygir yn yr Adroddiad weithgareddau a chyflawniadau'r Awdurdod yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003 yn ogystal â'i stiwardiaeth ariannol.

*Yn gywir*  
*Brian Connolly*

Brian Connolly  
Cadeirydd

ACCAC	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
ABCh	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
AChG	Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd
AGorff	Addysg Gorfforol
AGG	Addysg Gysylltiedig â Gwaith
CAA	Y Ganolfan Astudiaethau Addysg (Cyhoeddwy)
CBAC	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (Corff Dyfarnu)
CCEA	Council for the Curriculum Examinations and Assessment (Gogledd Iwerddon)
CIDREE	Consortium of Institutions for Development and Research in Education in Europe
Cyngor Cenedlaethol-ELWa	Cyngor Cenedlaethol Dysgu ac Addysgu Cymru
CCYSAGC	Cymdeithas Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Nghymru
CYSAG	Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
DAD	Deunydd Asesu Dewisol
DfES	Department of Education and Skills/Adran Addysg a Sgiliau (Llywodraeth y Deyrnas Unedig)
DfTE	Department of Training and Education/Adran Hyfforddiant ac Addysg (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
FBA	Francis Balsam Associates (Cyhoeddwy)
GNVQ	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol
IBO	International Baccalaureate Organisation
LNTQ	Languages National Training Organisation
MEUOAI	Making Effective Use of Assessment Information /Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu
NGfL Cymru	National Grid for Learning Cymru/Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru
NQF	Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
NVQ	National Vocational Qualification/Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol
OCA	Qualifications and Curriculum Authority (Lloegr)
SSC	Sector Skills Council/Y Cyngor Sgiliau Sector
SSDA	Sector Skills Development Agency/Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector
TAG	Tystysgrif Addysg Gyffredinol
TG	Technoleg Gwybodaeth
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
UG/U	Uwch Gyfrannol/Uwch
UWIC	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
TAA	Tystysgrif Addysg Alwedigaethol
VQ	Vocational Qualification/Cymhwyster Galwedigaethol



Mae ACCAC yn gyfrifol am y canlynol yng Nghymru:

- Cynggori ar ddatblygiadau polisi a sicrhau ansawdd a safonau mewn cymwysterau allanol cyffredinol a galwedigaethol.
- Adolygu pob agwedd ar y cwricwlwm ysgolion a threfniadau asesu statudol mewn ysgolion a gynhelir.
- Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth er mwyn cefnogi addysgu'r Gymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar y Cwricwlwm sy'n ymwneud yn benodol â Chymru.
- Cynggori ar raglenni ymchwil a datblygu priodol (a'u gweithredu os gofynnir am hynny).
- Cyhoeddi a dosbarthu gwybodaeth yn ymwneud â chymwysterau, cwricwlwm ac asesu yng Nghymru.

Mae crynodeb o gefndir statudol yr Awdurdod yn y 'Rhagair i'r Cyfrifon'.

Mae'r Adroddiad hwn yn adolygu gweithgareddau a chyflawniadau'r Awdurdod yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003 yn ogystal â'i stiwardiaeth ariannol.

Mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) wedi llwyddo i gyflawni'r mwyafrif helaeth o'i dargedau ar gyfer 2002/03. Bu 2002/03 yn flwyddyn hynod o brysur i'r Awdurdod. Yn ystod y flwyddyn bu'n rhaid i'r Awdurdod gwrdd â sialensau ychwanegol o ganlyniad i Ymchwiliad Tomlinson ar safonau Safon Uwch, cylch gorchwyl yr Adolygiad ar Gymwysterau Galwedigaethol a datblygu Cam Sylfaen, Llwybrau Dysgu: 14–19 ac Iaith Pawb; cynlluniau y treuliwyd cryn dipyn o amser arnynt oll bob un. Serch hynny, gydag ymroddiad parhaus staff yr Awdurdod, llwyddwyd i gwrdd â'r rhan fwyaf o'r targedau, fel y'u hamlinellwyd yn y Cynllun Gweithredol. Roedd y llwyddiannau a rhestryd isod ymhlith yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Parhau i ddatblygu'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol gan gynnwys y datblygiadau gyda Bagloriaeth Cymru a Sgiliau Allweddol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cwblhau rhaglen i fonitro'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Anfonodd swyddogion ACCAC holiaduron i sampl o ysgolion ac eraill a chynhaliwyd cyfres o gynadleddau i fonitro gweithredu'r Gorchmynion pwnc a'u trefniadau asesu. Penodwyd asiantaeth annibynnol hefyd i gynnal arolwg o'r cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.
- Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog i ddileu profion statudol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 y llynedd datblygwyd a chyhoeddwyd gan ACCAC ddeunyddiau i gefnogi athrawon wrth iddynt wneud eu hasesiadau athrawon mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg. Cynhaliwyd cynhadledd ym mis Chwefror 2003 i lansio'r deunyddiau ar asesiadau athrawon cyn eu dosbarthu. Dosbarthwyd y deunyddiau ar gyfer Cymraeg a Saesneg ym mis Mawrth a bydd y deunyddiau mathemateg yn cael eu dosbarthu ym mis Mehefin 2003.
- Yn dilyn cyngor a roddwyd gan ACCAC ym mis Mai 2002, cyhoeddodd y Gweinidog ym mis Hydref 2002 y byddai Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn statudol ar gyfer disgyblion 5–16 oed o fis Medi 2003 ymlaen. Byddai Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG) yn statudol ar gyfer disgyblion 14–16 oed o fis Medi 2004 ymlaen.
- Lansio cyfarwyddyd ar wella safonau yng Nghyfnod Allweddol 3 mewn llythrennedd a rhifedd mewn cynhadledd ym mis Mawrth 2003. Cynhyrchwyd y deunyddiau, y pedair fideo a'r llyfryn cysylltiedig ar y cyd gan yr Adran Hyfforddiant ac Addysg, Estyn a'r BBC.
- Cyfrannu at y Grŵp o Arbenigwyr a sefydlwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn llywio'r cynllun peilot ar drochi disgyblion yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2.

- Bu swyddogion ACCAC yn weithredol mewn nifer o fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys grwpiau ymgynghorol yn datblygu'r ymgynghoriadau ar Cam Sylfaen: 3–7 oed a Llwybrau Dysgu: 14–19.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb i'r adroddiad cychwynnol ar y Strategaeth Trawsnewid er mwyn rheoli'r Sgiliau Allweddol.
- Bydd adroddiad ar y cyd yn ystyried adolygu safonau'r Sgiliau Allweddol yn cael ei ddarparu i'r Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau yn ystod 2003/04.
- Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd ACCAC yn agos gyda Chyngor Cenedlaethol-ELWa wrth ddatblygu ymhellach y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Cymru.
- Oherwydd cynyddiad yn y nifer o staff, symudodd rhai aelodau o'r staff i ail swyddfa ACCAC yn Nhŷ Southgate, Caerdydd ym mis Gorffennaf 2002.

Mae'r manylion am gyflawniadau'r Awdurdod i'w gweld o dan bob un o nodau'r Awdurdod.







Mr Brian Connolly OBE  
Cadeirydd

Dyma aelodau'r Awdurdod a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ariannol 2002/03:

**Mr Brian Connolly OBE**, Cadeirydd, Aelod o Fwrdd yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector

**Mr Owen Rees CB**, Dirprwy Gadeirydd, cyn Is-Ysgrifennydd yn y Swyddfa Gymreig

**Mr Alan Boxford OBE**, Pennaeth, Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd – ymddeolodd 31 Mawrth 2003

**Mrs Eileen Davies**, Pennaeth Gwyddoniaeth, Coleg y Drindod, Caerfyrddin, Cadeirydd Cyngor Addysg Amgylcheddol Cymru

**Mrs Sandra Davies OBE**, Pennaeth, Ysgol Gyfun Ogwr

**Mrs Katija Dew**, Arbenigwraig Hyfforddiant a Gweithiwr Ieuenctid, Canolfan Gydweithredol Cymru Cyf

**Mr Roger Evans**, Cyn Gyfarwyddwr Personél ASW Holdings plc

**Mrs Jennifer Evans**, Cydlynnydd, Consortiwm Cymunedol Addysg a Hyfforddiant Torfaen

**Mr Robert Fowler**, Pennaeth Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Cwricwlwm, Coleg Castell-nedd Port Talbot

**Mr Emlyn R Jones OBE**, Cyn Bennaeth, Coleg Iâl – ymddeolodd 31 Mawrth 2003

**Mr Christopher Kipling**, Rheolwr Hyfforddi, Sony Manufacturing Co. UK, Pen-y-bont ar Ogwr – ymddeolodd 31 Mawrth 2003

**Mr Stuart Mathias**, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgu, Coleg Sir Gâr, Sir Gaerfyrddin – ymddeolodd 31 Mawrth 2003

**Mrs Susan Parsons OBE**, Pennaeth, Ysgol Gynradd Llanidloes, Powys – ymddeolodd 31 Mawrth 2003

**Dr Pauline Peregrine**, Uwch Ddarlithydd, Ysgol Busnes Prifysgol Morgannwg

**Dr Bryn Roberts**, Rheolwr Gyfarwyddwr, Vertex International Network Ltd

#### Cofrestr buddiannau'r aelodau

Mae cofrestr o fuddiannau'r aelodau ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau gwaith arferol yn swyddfa'r Awdurdod yn Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd.



## Y Strwythur Pwyllgorau

### ■ Yr Awdurdod

Cyfarfu'r Awdurdod bedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Ymdrinnir â phob mater polisi strategol gan yr Awdurdod llawn. Bydd yr Aelodau yn cael cofnodion pob is-bwyllgor a'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r Awdurdod ar ffurf adroddiad chwarterol ar ei berfformiad. Yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Archwilio cymeradwyodd yr Awdurdod y Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Gweithredol, yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r Rheolau Sefydlog. Ymhlith y cyngor a roddwyd i'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes oedd gwneud ABCh a AGG yn elfennau statudol o'r cwricwlwm. Cytunodd yr Awdurdod ar yr ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru Llwybrau Dysgu: 14–19. Mabwysiadodd yr Awdurdod hefyd gynllun newydd ar werthuso perfformiad ar gyfer yr Aelodau.

Ymgwymerir â gwaith manwl yr Awdurdod gan ei amryw Bwyllgorau, fel a ganlyn:

### ■ Y Pwyllgor Archwilio

Aelodau: Mr Alan Boxford (Cadeirydd); Mrs Jennifer Evans; Mr Roger Evans; Mr Chris Kipling; Mrs Susan Parsons; Dr Pauline Peregrine.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith yn ystod y flwyddyn.

Ymdrinnir â'r holl waith archwilio mewnol ac allanol a materion yn ymwneud â gwerth-am-arian gan y Pwyllgor Archwilio. Yn ystod y flwyddyn, argymhellodd y Pwyllgor Archwilio y dylai'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod llawn; cytunwyd ar y cynllun archwilio mewnol arfaethedig ar gyfer 2002/03–2003/04; a chymeradwywyd y Datganiad ynglŷn â'r System Reoli Fewnol. Derbyniodd y Pwyllgor hefyd nifer o adroddiadau yn ymwneud ag archwiliadau mewnol ynghyd â llythyr Rheoli Swyddfa'r Archwiliad Cenedlaethol.

### ■ Y Pwyllgor Comisiynu

Aelodau: Mr Owen Rees (Cadeirydd); Mr Brian Connolly; Mrs Eileen Davies; Mrs Sandra Davies; Mr Robert Fowler; Mr Stuart Mathias.

Cyfarfu'r Pwyllgor Comisiynu deirgwaith yn ystod y flwyddyn.

Ymdrinnir â'r holl waith o gomisiynu deunyddiau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer yr ystafell ddosbarth gan y Pwyllgor hwn. Yn ystod y flwyddyn cymeradwyodd y Pwyllgor strategaeth gomisiynu newydd yr Awdurdod ar gyfer 2003/04–2005/06; y modd y dyrannwyd y contractau am y flwyddyn; a'r rhaglen gomisiynu am 2003.

### ■ Y Pwyllgor Gwaith

Aelodau: Mr Brian Connolly (Cadeirydd);  
Mrs Sandra Davies; Mrs Katija Dew;  
Mr Emlyn R Jones; Mr Owen Rees;  
Dr Bryn Roberts.

Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith deirgwaith yn ystod y flwyddyn.

Ymdrinnir â'r holl waith gweinyddu, staffio, marchnata, cynllunio corfforaethol a gweithredol gan y Pwyllgor Gwaith. Yn ystod y deuddeg mis blaenorol argymhellodd y Pwyllgor Gwaith y dylai'r Awdurdod llawn gymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2003/04–2005/06, yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002, y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2003/04 a'r Cynllun Gweithredu Cyfle Cyfartal.

### ■ Y Pwyllgor Cymwysterau

Aelodau: Mr Emlyn R Jones (Cadeirydd);  
Mr Alan Boxford; Mrs Eileen Davies;  
Mrs Katija Dew; Mrs Jennifer Evans;  
Mr Roger Evans; Mr Robert Fowler;  
Mr Chris Kipling; Mr Stuart Mathias;  
Dr Pauline Peregrine; Mr Owen Rees.

Cyfarfu'r Pwyllgor Cymwysterau ddwywaith yn ystod y flwyddyn.

Ymdrinnir â'r holl faterion sy'n ymwneud â chymwysterau allanol cyffredinol a galwedigaethol gan y Pwyllgor Cymwysterau. Yn ystod y flwyddyn trafododd y Pwyllgor gynghor ar ailsefyll arholiadau, y broses o gyfnewid, a rhesymoli data ystadegol. Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd y prosesau cyffredol sy'n bod i fonitro cymwysterau yn rhai priodol a digonol i'r Awdurdod gyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio ôl dyfarnu. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau ar y gwaith sy'n dod i'r golwg o Ymchwiliad Tomlinson i safonau Safon Uwch.

### ■ Y Pwyllgor Taliadau

Aelodau: Mr Brian Connolly (Cadeirydd);  
Mrs Sandra Davies; Mr Emlyn R Jones;  
Mr Owen Rees.

Cyfarfu'r Pwyllgor Taliadau deirgwaith yn ystod y flwyddyn.

Ymdrinia'r Pwyllgor hwn â gwerthusiad perfformiad rheolaidd y Prif Weithredwr.

### Staff

Mae'r Prif Weithredwr, John Valentine Williams, yn cael ei gefnogi gan bedwar Prif Weithredydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- Cymwysterau a Chwricwlwm 14–19  
Linda Badham

- Cymwysterau Galwedigaethol a Dysgu Gydol Oes  
Ann Evans
- Cwricwlwm ac Asesu 5–14  
David Watcyn Jones
- Gwasanaethau Canolog a Chomisiynu  
Huw Davies

Mae gweddill y staff yn cynnwys swyddogion ac ymgynghorwyr pwnc sydd â chyfrifoldebau am y cwricwlwm, cymwysterau, asesu a chomisiynu, ynghyd â staff cynorthwyol.

#### Polisi iaith Gymraeg

Polisi'r Awdurdod yw trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ymwneud â'r cyhoedd.

Mae'r Awdurdod yn 'gorff cyhoeddus' at ddibenion Deddf yr Iaith Gymraeg ac mae wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg.

#### Safonau gwasanaeth

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi *Datganiad o Safonau Gwasanaeth* sy'n nodi'r hyn y gall pawb sy'n delio â'r Awdurdod ei ddisgwyl.






Mae'r rhan fwyaf o gyfanswm gwariant yr Awdurdod yn ymwneud â gweithgareddau'r rhaglenni, fel y dangosir isod:

	£'000	
Gwariant ar y rhaglenni	8,154	69%
Costau staff	2,879	24%
Costau gweinyddol eraill	869	7%

Dangosir dyraniad y gwariant hwn yn Ffigur 1 isod, a chynhwysir gwariant 2000/2001 a 2001/2002 er mwyn cymharu.

Ffigur 1



Dyma'r gwariant ar raglenni yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn:

	£'000	
Nod 1 – Y Fframwaith Cymwysterau	1,661	20%
Nod 2 – Y Cwricwlwm Ysgol a'r asesiad ohono	4,764	58%
Nod 3 – Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth	1,500	19%
Nod 4 – Ymchwil, gwybodaeth a chyhoeddusrwydd	229	3%

Rhoddir crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn yn y 'Rhagair i'r Cyfrifon'.

Diben yr Awdurdod yw hyrwyddo addysg a hyfforddiant yng Nghymru gyda'r nod o hybu ansawdd a chydlyniaid. Er mwyn cyflawni'r diben hwn mae gan yr Awdurdod bum Nod allweddol:



Datblygu Fframwaith Cymwysterau cydlynol sy'n cwrdd ag anghenion Cymru ac sy'n gwella lefelau sgiliau a chyrhaeddiad addysgol.



Datblygu cwricwlwm cydlynol ac integredig ar gyfer disgyblion 5–19 oed, gyda threfniadau asesu yn 5, 7, 11 a 14 sy'n codi safonau cyrhaeddiad ac yn ymestyn cyfleoedd addysgol.



Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o safon uchel i gefnogi addysgu'r Gymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar gwricwlwm ysgolion sy'n ymwneud â Chymru'n bennaf.



Gwella sylfaen gwybodaeth yr Awdurdod gan ddarparu gwybodaeth amserol ynghylch datblygiadau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.



Sicrhau sefydliad sy'n gynyddol effeithiol ac effeithlon.

## Datblygu Fframwaith Cymwysterau cydlynol sy'n cwrdd ag anghenion Cymru ac sy'n gwella lefelau sgiliau a chyrhaeddiad addysgol.

NOD

1

Er nad oedd yn darged a ragwelwyd ar gyfer 2002/2003, bu gweithredu canlyniadau Ymchwiliad Tomlinson ar safonau Safon Uwch yn flaenoriaeth uchel i'r Awdurdod eleni. Mae'r gwaith sy'n deillio o'r Ymchwiliad yma yn cael ei wneud mewn tair gwlad ar y cyd â Lloegr (QCA) a Gogledd Iwerddon (CCEA). Ymhlith y canlyniadau oedd y canlynol:

- adolygu'r Cod ymarfer
- datblygu deunyddiau disgrifiadau ac enghreifftiau o berfformiad ar gyfer Safonau UG/U
- monitro ac adrodd yn ôl ar y gyfres o arholiadau a gynhaliwyd ym mis Ionawr
- gweithio gyda chyrrff dyfarnu, CBAC yn arbennig, er mwyn dadansoddi risg a diogelu arholiadau 2003
- datblygu cyngor ar ailsefyll arholiadau a chyfnewid ar gyfer Safon UG/U
- cynrychioli buddiannau Cymru ar wahanol grwpiau gweithrediadol a strategol.

Darparwyd adroddiadau i gyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cymwysterau ym mis Ionawr a mis Chwefror yn y drefn honno, a chadwyd mewn cysylltiad agos â swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cafodd yr Ymchwiliad effaith ar nifer o feysydd eraill sy'n rhan o waith yr Awdurdod gan gynnwys datblygiadau pellach yn dilyn

Adolygiad o'r Cwricwlwm yn 2000, ailgyflwyno Safon UG/U Mathemateg, manylebau diwygiedig ar gyfer TAA a dadansoddi data ystadegol ar gyfer canlyniadau haf 2002.

Blaenoriaeth uchel arall nas rhagwelwyd ar gyfer 2002/2003 oedd y dasg o adolygu'r system ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Mae'r gwaith sy'n deillio o hyn ar droed mewn pedair gwlad gyda phartneriaid yn Lloegr (QCA a LSC), Yr Alban (SOA), Gogledd Iwerddon (CCEA) a Chymru (Cyngor Cenedlaethol-ELWa) yn ogystal â'r SSDA. Dyma'r canlyniadau allweddol hyd yma:

- datblygu gweledigaeth ar gyfer cymwysterau galwedigaethol
- datblygu cynllun gwaith mewn camau ar gyfer y pedair i saith mlynedd nesaf er mwyn gwireddu'r weledigaeth yma.

### Targed allweddol:

Parhau i ddatblygu Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ac yn arbennig y gwaith yn deillio o'r Adolygiad o'r Cwricwlwm 2000 a Sgiliau Allweddol.

- Anfonwyd y trydydd Adroddiad Blynyddol ar Resymoli Cymwysterau at y Gweinidog ym mis Ionawr 2003. Mae'r adroddiad yn cael ei oruchwylio gan y Cyd-Grŵp Gweithredu ar Resymoli ar gyfer Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Y prif gyflawniadau yn ystod y cam hwn o'r gwaith fu rhoi cydnabyddiaeth i 106 o gyrff dyfarnu gynnig cymwysterau o



**Mynediad i bawb**

Mae ACCAC yn gweithio tuag at Gyfle Cyfartal. Dylai pawb sy'n dysgu fedru cael eu galluoedd a'u cyrhaeddiad wedi'u cydnabod drwy asesiadau a chymwysterau cenedlaethol. Eleni, trefnodd ACCAC gynhadledd ar *Fynediad i Asesiadau a Chymwysterau*, a lansiwyd trefniadau arbennig sydd newydd eu datblygu ar gyfer cymwysterau ar y lefel mynediad a sgiliau allweddol. Rhaid i'r trefniadau fod yn addas at eu pwrpas, fel y gall y rhai hynny sydd angen y cymorth hwn i ddangos eu cyrhaeddiad hefyd fod yn hyderus y rhoddir yr un gwerth ar eu prawf neu eu cymhwyster hwy â phroffion neu gymwysterau eraill.



fewn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Cyflwynwyd dros 5200 o gynigion ac achredwyd dros 3500 ohonynt. Cafodd y gweddill naill ai eu tynnu'n ôl neu eu hymgorffori'n rhan o gymwysterau eraill.

- Dechreuwyd ar arolwg cynhwysfawr o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol a'r trefniadau rheoleiddio a'r broses achredu yn ystod yr hydref 2002. Ar ôl ymgynghori'n helaeth ym mis Tachwedd 2002, dengys y dadansoddiad cychwynnol gefnogaeth i gysoni'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol gyda fframweithiau eraill yn y Deyrnas Unedig, yn Ewrop ac yn rhyngwladol, ynghyd â phroses achredu symlach a'r angen am ddogfennau rheoli mwy clir a chyson. Disgwylir cwblhau'r gwaith yn yr hydref 2003. Anfonwyd adroddiad interim ar adolygu'r trefniadau cyfredol ar gyfer rheoleiddio cymwysterau allanol i Lywodraeth Cynulliad Cenedlaethol ym mis Chwefror 2003.
- Ar y cyd â QCA a CCEA, mae ACCAC wedi parhau i adolygu Sgiliau Allweddol a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2003. Mae Cymru wedi parhau i gyflwyno profion Sgiliau Allweddol yn Gymraeg i gyrrff dyfarnu.
- Gweithiodd ACCAC gyda QCA i weithredu TGAU mewn Pynciau Galwedigaethol i'w haddysgu yn y lle cyntaf ym mis Medi 2002. Cytunwyd hefyd ar drefniadau ar gyfer

TGAU mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

#### Targed allweddol:


Parhau i gyfrannu at Broject Bagloriaeth Cymru.

- Cafodd y cymhwyster Bagloriaeth Cymru ei achredu gydag amodau ym mis Gorffennaf 2002. Mae'r holl amodau ar gyfer 2002 wedi'u cyflawni a chafodd y cymhwyster ei gymeradwyo gan Grŵp Achredu'r Staff Hŷn ym mis Ionawr 2003. Mae ACCAC yn parhau i fonitro'r cynllun peilot ac yn aelod o'r Grŵp Llywio.

#### Targed allweddol:

Cefnogi'r polisiau sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Cyfrannodd yr Awdurdod at ddatblygu'r ymgynghoriad ar Llwybrau Dysgu: 14–19 a'r Cynllun Gweithredu dilynol. Cyflwynwyd ymateb ffurfiol ACCAC ei hun i'r ymgynghori hwn ym mis Chwefror 2003.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymateb i adroddiad cychwynnol ACCAC, QCA a CCEA ar y Strategaeth Trawsnewid er mwyn rheoli'r Sgiliau Allweddol.
- Bydd adroddiad ar y cyd yn ystyried adolygu safonau'r Sgiliau Allweddol yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau yn ystod 2003/04.



- Yn ystod y flwyddyn, mae ACCAC wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Cenedlaethol - ELWa ar ddatblygu ymhellach y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer Cymru.

#### **Targed allweddol:**

##### **Sicrhau safonau.**

- Mae cyfanswm o 258 o gymwysterau wedi eu cydnabod bellach fel Tystysgrifau Technegol gan yr awdurdodau rheoleiddio ac maent bellach yn cael eu gweithredu yn rhan o'r fframweithiau diwygiedig ar gyfer Prentisiaethau Modern.
- Yn dilyn yr adolygiad ar reoli Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sefydlwyd Bwrdd strategol o dan gadeiryddiaeth cyflogwr gyda chynrychiolaeth o'r SSDA.
- Derbyniodd y Gweinidog gyngor ACCAC i ohirio dechrau addysgu cyrsiau diwygiedig Tystysgrif Addysg Alwedigaethol (TAA) tan fis Medi 2005.
- Mae achredu cwrs UG TAA Cymraeg ail iaith wedi'i roi o'r neilltu tra bo datblygiadau yn sgil Ymchwiliad Tomlinson ar y gweill.
- Achredwyd y cymwysterau Defnyddio'r Gymraeg ar y Lefel Mynediad a Lefelau 1–3 gydag amodau ym mis Mai a mis Mehefin 2002; mae'r achrediad ar gyfer cymwysterau ar y Lefel Mynediad a Lefel 1 wedi'i gyfyngu er mwyn ei dreialu yn 2003/04.
- Cwblhawyd ymgynghoriad ar y meini prawf diwygiedig ar gyfer mathemateg UG/U ym mis Hydref 2002 a chafodd y meini prawf diwygiedig eu cwblhau ym mis Tachwedd 2002. Cyflwynodd y cyrff dyfarnu fanylebau diwygiedig ar gyfer mathemateg UG/U ym mis Mawrth 2003.
- Mae ACCAC wedi parhau i weithio gyda'r Languages National Training Organisation (LNTO) sy'n rhoi cyngor ar dreialu safonau drafft ar gyfer cymhwysedd trawsieithog. Ers hynny mae LNTO wedi cynhyrchu safonau diwygiedig.
- Gan weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Cyngor Cenedlaethol - ELWa, mae ACCAC wedi canfod y cymhlethdodau a oedd yn gysylltiedig â chasglu data cywir a dibynadwy am y niferoedd a oedd yn astudio ar gyfer cymwysterau Sgiliau Allweddol o blith yr holl fyfyrwyr.
- Cwblhaodd yr Awdurdod ei archwiliad ar effeithiolrwydd systemau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ar gyfer rheoli'r gwaith sy'n gysylltiedig â chymwysterau. Anfonwyd copi terfynol drafft o'r adroddiad i CBAC ym mis Chwefror 2003.
- Cytunwyd ar dargedau perfformiad ar gyfer y Cyrff Dyfarnu Unedol ym mis Mai 2002. Er bod y cyrff dyfarnu wedi adrodd yn erbyn y targedau hyn, yn wyneb Ymchwiliad Tomlinson, nid aed ati i gyhoeddi'r wybodaeth yn 2002.
- Cafodd y gwaith o fonitro perfformiad y Cyd-gyngor ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol ei gynnwys yn rhan o'r gwaith o weithredu argymhellion Ymchwiliad Tomlinson.

- Gwnaed archwiliadau o arholiadau Safon UG/U CBAC yn 2002 mewn mathemateg, Cymraeg, Saesneg llên, hanes yn ogystal â TG Lefel Mynediad ac astudiaethau tir. Anfonwyd yr adroddiadau dilynol a roddai fanylion am y canfyddiadau a'n hargymhellion i CBAC ym mis Chwefror 2003.
- Darparwyd saith adroddiad dilynol pellach ar gyfer CBAC ar archwiliadau a wnaed ar gyfer TGAU a Safon UG/U yn 2000 a 2001.
- Mae deunyddiau'r International Baccalaureate Organisation (IBO) a dderbyniwyd hyd yma yn cwrdd â'r gofynion rheoleiddio ac mae'r amodau achredu perthnasol wedi'u cyflawni.
- Cwblhawyd yr adroddiad terfynol a fonitrai weithrediad Cod Ymarfer 2002 ar gyfer TGAU, TAG, TAA a GNVO yng nghyfarfod dyfarnu'r haf ym mis Hydref 2002. Cafodd y cyfarfodydd dyfarnu a'r pwyllgorau cadarnhau ym mis Ionawr 2003 eu monitro a rhoddwyd adborth pellach i CBAC ym mis Mawrth 2003.
- Cytunwyd ar y rhaglen fonitro ar gyfer y cymwysterau NVO a VRQ gyda QCA a chwblhawyd archwiliad llawn o'r systemau canolog ar gyfer un corff dyfarnu. Mae'r gwaith o fonitro'r 18 corff dyfarnu Sgiliau Allweddol yn mynd yn ei flaen.
- Datblygwyd rhaglen beilot i fonitro'r cyrsiau NVO a VRQ drwy gyfrwng y Gymraeg a datblygwyd y llwybr iaith ddeuol yn ystod 2002 a gaiff ei weithredu yn ystod 2003.

- Cyhoeddwyd y rheoliadau drafft ar gyfer y trefniadau arbennig mewn Sgiliau Allweddol a'r Lefel Mynediad er mwyn eu trafod yn y gynhadledd Mynediad i Asesu a Chymwysterau ym mis Mawrth 2003. Mae'r rheoliadau ar gael ar safwe y JCGO.
- Derbyniodd yr Awdurdod 65 o ymholiadau a chwynion (gan gynnwys peidio â chydymffurfio) ynglŷn â chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eleni ac mae 22 achos arall yn dal i fynd rhagddynt ers 2001/02. O'r rhain, cwblhawyd 50 yn ystod y flwyddyn.

**Targed allweddol:**

Ffocysu'r strategaeth i gefnogi cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Cyflwynwyd y cyngor terfynol ar fabwysiadu dull strategol o weithredu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror 2003. Gohiriwyd y cyngor er mwyn cymryd i ystyriaeth yr ymgynghori ar y dogfennau Llwybrau Dysgu: 14-19 ac Iaith Pawb.

**Targed allweddol:**

Rhoi cyngor ar gymeradwyo cymwysterau yn statudol.

- Rhoddodd ACCAC gyngor i'r Lywodraeth Cynulliad Cymru, o dan Adran 96 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, ar gymeradwyo cymwysterau i'w defnyddio gan ddisgyblion 18 oed ac iau.



Datblygu cwricwlwm cydlynol ac integredig ar gyfer disgyblion 5–19 oed, gyda threfniadau asesu yn 5, 7, 11 a 14 sy'n codi safonau cyrhaeddiad ac yn ymestyn cyfleoedd addysgol.

NOD

2

#### Targed allweddol:

Paratoi ar gyfer adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru a'r trefniadau asesu.

- Cwblhaodd yr Awdurdod raglen i fonitro'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Anfonodd swyddogion ACCAC holiaduron i sampl o ysgolion a budd-ddeiliaid eraill yn ogystal â chynnal cyfres o gynadleddau i fonitro gweithredu'r Gorchmynion Pwnc a'r trefniadau asesu. Cyflwynodd y swyddogion adroddiadau pwnc ym mis Rhagfyr yn rhan o'r broses yma o gasglu tystiolaeth. Penodwyd hefyd asiantaeth annibynnol a fu'n gyfrifol am wneud arolwg o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Cynhyrchwyd adroddiad interim. Bwriedir cynnal rhagor o gynadleddau i drafod y canfyddiadau a'r argymhellion.

#### Targed allweddol:

Gwella a chefnogi asesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 1.

- Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog i ddileu profion statudol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 ym mis Tachwedd 2001, datblygwyd a chyhoeddwyd gan ACCAC ddeunyddiau i gefnogi athrawon wrth iddynt wneud eu hasesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 1. Cynhaliwyd cynhadledd ym mis Chwefror 2003 i lansio'r deunyddiau ar asesiadau athrawon cyn eu

dosbarthu i'r ysgolion yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Dosbarthwyd y deunyddiau ar gyfer Cymraeg a Saesneg ym mis Mawrth a bydd mathemateg yn cael ei ddosbarthu ym mis Mehefin 2003.

#### Targed allweddol:

Rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar statws anstatudol cyfredol y fframweithiau ABCh a AGG.

- Yn dilyn cyngor a roddwyd gan ACCAC, cyhoeddodd y Gweinidog ym mis Hydref 2002 y byddai ABCh yn statudol ar gyfer disgyblion 5–16 oed o fis Medi 2003 ymlaen. Byddai Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn statudol ar gyfer disgyblion 14–16 oed o fis Medi 2004 ymlaen.

#### Targed allweddol:

Rhoi cyfarwyddyd i ysgolion ar weithio'n draws-gwricwlaidd er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 3.

- Cynhyrchwyd pedair fideo a llyfryn cysylltiedig ar y cyd gan yr Adran Hyfforddiant ac Addysg, Estyn a'r BBC. Cawsant eu lansio mewn cynhadledd ym mis Mawrth 2003. Dylai'r pecyn fod yn adnodd defnyddiol i ysgolion sy'n cyflwyno polisiau ar lythrennedd a rhifedd am y tro cyntaf yn ogystal â'r ysgolion hynny sydd am adolygu eu harferion cyfredol a'r rheiny sydd â pholisiau



**O'r byd-eang i'r lleol**

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a'r Adran Datblygu Rhyngwladol, cyhoeddodd ACCAC y ddogfen gyfarwyddyd *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* ar gyfer ysgolion. Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn rhan o gwricwlwm a bywyd ysgolion eisoes felly nid yw'n ychwanegol at yr hyn sydd eisoes yn cael ei wneud. Amlinellir yn y ddogfen pam y dylai ysgolion hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, gan roi diffiniadau sylfaenol ynghyd ag enghreifftiau o arferion da. Gobeithir y bydd y cyfarwyddyd yma yn helpu ysgolion i gynllunio a datblygu gweithgareddau dysgu.



yn eu lle ond sydd am gadarnhau arferion da.

- Bwriedir dechrau datblygu cyfarwyddyd ar TGCh ar draws y cwricwlwm ym mis Ebrill 2003 a bydd ar gael yn 2004.

#### Targed allweddol:

Cefnogi datblygu polisi ar gyfer y Cam Sylfaen.

- Bu'r Awdurdod yn aelod o Banel Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chyfrannodd at ddatblygu'r papur ymgynghorol Cam Sylfaen: 3–7 oed. Cyflwynir ymateb ffurfiol ACCAC i'r ymgynghori ym mis Mai 2003.

#### Targed allweddol:

Cefnogi gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cynllun peilot o drochi disgyblion yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2.

- Bu ACCAC, ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid eraill, yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun peilot o drochi disgyblion yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2.

#### Targed allweddol:

Cefnogi nifer o gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a'r Adran Datblygu Rhyngwladol, cyhoeddodd ACCAC y

ddogfen gyfarwyddyd *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* ar gyfer ysgolion. Lansiodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y cyfarwyddyd ym mis Tachwedd 2002.

- Mae gan ACCAC gynrychiolaeth ar y Grŵp Ymgynghorol ar Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgolion a'r Tîm Gweithredu Cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith Tasglu Addysg Gorfforol ac Ysgolion Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol.
- Mae swyddog ACCAC yn aelod o Grŵp Ymgynghorol y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru. Mae'r Awdurdod hefyd yn rhan o drafodaethau ar faterion yn ymwneud â sicrhau ansawdd.

#### Gwybodaeth ychwanegol:

- Datblygwyd cyfarwyddyd ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog a chaiff ei ddosbarthu i ysgolion yn ystod yr hydref 2003.
- Yn ystod mis Tachwedd 2002 cynhaliwyd cynhadledd wedi'i hanelu at Gydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd er mwyn rhoi cyfarwyddyd iddynt ar osod targedau.
- Yn dilyn trafodaethau ag athrawon, diwygiwyd cynlluniau'r Awdurdod i gynhyrchu cyfarwyddyd ar arferion da wrth gynllunio cwricwlwm ac asesu disgyblion ag anawsterau dysgu o blaid rhannu arferion



da. Bydd y canlyniadau yn cael eu dangos ar safwe'r Awdurdod.

- Dyfarnwyd y cytundeb i gynhyrchu fersiynau braille a phrint mawr Addasedig o'r profion statudol ar gyfer 2003–2005 ym mis Awst 2002.
- Bydd adroddiad drafft adolygiad CYSAG yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Ebrill gyda'r nod o gyhoeddi'r adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2003.
- Cafodd Cyfarwyddyd Diwygiedig ar yr Arolygu Meysydd Llafur Cytûn Lleol ACCAC dderbyniad gwresog yng Nghynhadledd Genedlaethol CCYSAGC ym mis Ebrill 2002 lle roedd 70 o gynrychiolwyr yn bresennol.
- Mae'r cyfarwyddyd ar y Cwricwlwm Cymreig wedi cyrraedd y camau terfynol yn y broses o'i gynhyrchu. Fe'i dosberthir i ysgolion yn hydref 2003. Caiff y deunydd ei lansio gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes mewn cynhadledd ar 17 Medi 2003.
- Ar ôl lansio Strategaeth Genedlaethol ar leithoedd Tramor Modern Llywodraeth Cynulliad Cymru, leithoedd sy'n Cyfrif ym mis Ebrill 2002, bu ACCAC yn gweithio gydag Estyn a Llywodraeth Genedlaethol Cymru i gynhyrchu cyfarwyddyd ar *Gwneud y Cysylltiad: Dysgu Iaith 5–14* ar gyfer ysgolion. Caiff y cyfarwyddyd ei ddosbarthu yn hydref 2003.
- Mae swyddog ACCAC yn aelod o'r gweithgor sydd ar hyn o bryd yn asesu ceisiadau gan ysgolion sydd am gymryd rhan yn y cynllun peilot i gyflwyno ieithoedd tramor modern i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd.
- Cwblhawyd y gwaith o gynhyrchu a dosbarthu deunydd asesu dewisol (DAD), ac eithrio ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 mewn Cymraeg ail iaith a Chyfnod Allweddol 3 mewn mathemateg (a fydd yn cael ei ddosbarthu yn nhymor yr haf 2003), ac Addysg Grefyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn awr yn 2004. Aildrefnwyd gwerthuso'r DAD hefyd a chaiff hynny ei wneud yn awr yn 2003/04. Oherwydd yr hawlfraint a phroblemau technegol (ni all ysgolion newid ffeiliau PDF) penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â'r cynllun i roi deunyddiau disgybl DAD ar safwe'r Awdurdod.
- Mae'r adroddiad terfynol ar ymchwilio i'r berthynas rhwng profion Cyfnod Allweddol 3 a chymwysterau Cyfnod Allweddol 4 wrthi yn cael ei lunio.
- Mae gwaith datblygu ar ddyblygu gwaith yng Nghyfnodau Allweddol 2/3 wedi'i ddiwygio a bydd y gwaith a wnaed eisoes yn cael ei gynnwys yn y gwaith ar drawsnewid a fydd yn cael ei wneud yn 2003/04 gyda'r BBC.

- Dosbarthwyd y llyfyrnau ar *Drefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2003* ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 i ysgolion ym mis Medi 2002. Dosbarthwyd y llyfyrnau ar *Drefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2003* ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 i ysgolion ym mis Chwefror 2003.
- Roedd profion statudol Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ar gyfer 2002 yn yr ysgolion cyn diwedd mis Ebrill 2002.
- Dosbarthwyd tasgau statudol Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg a Saesneg ar gyfer 2003 a thasgau Cyfnod Allweddol 3 Cymraeg i ysgolion erbyn 30 Tachwedd 2002.
- Bydd y deunyddiau ar gyfer profion statudol 2003 ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn barod erbyn diwedd mis Ebrill 2003 ac mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar y deunyddiau ar gyfer 2004 a 2005.
- Cafodd yr adroddiadau ar y *Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3* ar brofion statudol 2002 ym mhob un o'r pynciau craidd eu dosbarthu i'r ysgolion ym mis Tachwedd 2002.
- Mae swyddogion ACCAC yn rhan o Grwpiau Llywio a Grwpiau Ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydlwyd gyda'r nod o ddarparu ystadegau ar lefel Cymru-gyfan er mwyn sicrhau y cesglir y data sy'n briodol.
- Cyhoeddwyd *Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd – Cyfarwyddiadau Atodol* ym mis Hydref 2002. Yn ogystal â hynny, dosbarthwyd taflen gyfarwyddyd ar y Cysylltiadau rhwng ABCh, AChG ac AGG mewn addysg uwchradd ym mis Hydref 2002.





Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth Cymraeg a dwyieithog o safon uchel i gefnogi addysgu'r Gymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ac agweddau ar gwricwlwm ysgolion sy'n ymwneud â Chymru'n bennaf.

NOD

3

### Targed allweddol:

Cyhoeddi 88 y cant o'r teitlau a amserlennwyd i'w cyhoeddi yn 2002/03.

- Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 17 o brojectau. Bu swyddogion pwnc yr Awdurdod, gyda chymorth athrawon, yn monitro ansawdd y deunyddiau a gynhyrchwyd. Cafodd cyfanswm o 231 o deitlau eu hamserlennu i'w cyhoeddi yn ystod y flwyddyn; cyhoeddwyd 204 (88 y cant) ohonynt.
- Yn ystod 2002/03, cyhoeddwyd y deunyddiau a rhestrwyd isod ar gyfer ysgolion cynradd.

### Pynciau craidd

Er mwyn cefnogi datblygu sgiliau llythrennedd yn y Gymraeg, cyhoeddodd Gwasg Carreg Gwalch ddeunyddiau yn seiliedig ar yr wyddor *A-B-Clec*, llyfr o storïau ynghyd â CD a llyfr gweithgareddau. Cyhoeddwyd hefyd 75 o deitlau ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a addaswyd o'r *Oxford Reading Tree* gan Wasg Addysgol Drake.

Mewn mathemateg, datblygiad arwyddocaol fu cyhoeddi deunyddiau ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6 o addasiad Gwasg Taf o'r cynllun poblogaidd *Numeracy Focus*, gan gwblhau'r ddarpariaeth ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn y cynllun hwn.

### Pynciau sylfaen

Bu'n flwyddyn dda iawn o ran cyhoeddi deunyddiau ar gyfer Cymraeg ail iaith, yng Nghyfnod Allweddol 2 yn arbennig. Cyhoeddodd Gwasg Prifysgol Cymru eiriadur a anelwyd yn benodol at yr ystod oed yma, a chyhoeddodd CAA a Gwasg Gap wahanol fathau o ddeunyddiau darllen. Cyfres o wyth llyfr yn ar wahanol lefelau o'r cwricwlwm yw cyfres *Fflic* (CAA) ac mae'r pecyn *Arthur* (Gap) yn cynnwys cyfres o storïau llawn dychymyg ynghyd â gweithgareddau ar y we.

Ar gyfer astudio hanes Cymru, cwblhaodd Gwasg y Dref Wen broject uchelgeisiol gan gyhoeddi 12 llyfr stori yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn fformat mawr a bach. Maent yn debyg i'w cyhoeddiadau blaenorol a gafodd ganmoliaeth uchel yn 1998.

Mewn daearyddiaeth, lansiodd FBA safwe [www.geo-drws.co.uk](http://www.geo-drws.co.uk) lle gellir dod o hyd i amrywiaeth o wahanol fathau o ddeunyddiau daearyddiaeth. Cyhoeddwyd ganddynt hefyd fwy o lyfrau stori yn rhan o'r gyfres *Cwmpawd* yn seiliedig ar deulu yn ymweld â gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Cynhyrchwyd taflenni gwaith ar y we hefyd yn rhan o'r gyfres hon.

Cyhoeddodd CURIAD llyfr o donau crynion *Rownd a Rownd*, (sef addasiad o gyhoeddiad Saesneg), gyda'r bwriad o ddatblygu sgiliau cerddorol yng Nghyfnod Allweddol 2.



**Ymestyn gorwelion**

Llwyddwyd i dorri tir newydd gyda rhai o broiectau comisiynu diweddaraf ACCAC. Ynghyd â threialu a datblygu manyleb arholiad newydd ar gyfer cwrs galwedigaethol Cymraeg ail iaith 16+, cynhyrchwyd *Sglein* ar y *Sgiliau* gan y cyhoeddwr CAA. Mae hyn yn gysail defnyddiol ar gyfer yr Awdurdod a'i bartneriaid gan ddatblygu'r cwricwlwm ac adnoddau ar y cyd â'i gilydd. Carreg filltir arall ar gyfer ACCAC oedd y cydweithio gyda CBAC a arweiniodd at gyhoeddi deunydd Cymraeg ar gyfer Addysg Grefyddol TGAU gan Hodder.



- Yn ystod 2002/03, cyhoeddwyd y deunyddiau a rhestrwyd isod ar gyfer ysgolion uwchradd.

#### Pynciau craidd

Cyhoeddwyd mwy o deitlau eleni yn y gyfres *Clic* (CAA). Dyma gyfres o lyfrau darllen sydd wedi'u hanelu'n benodol at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 sy'n gweithio ar lefelau is o fewn y cwricwlwm. Bydd disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch yn sicr o groesawu cyhoeddiad diweddar Gwasg Carreg Gwalch ynghyd â'r CD, *Mae'n gêm o ddau fileniwm*, sef cyflwyniad i waith beirdd Cymru (y traddodiadol a'r modern).

Mewn mathemateg, cyfieithwyd deunyddiau Blwyddyn 9 yn rhan o'r cynllun *Allwedd Mathemateg* (pump testun lliw llawn a pump ffeil fawr) gan gwblhau'r ddarpariaeth ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Bu'n broiect mawr dros gyfnod o dair blynedd (buddsoddiad o £500,000) a chafodd ei gwblhau'n llwyddiannus mewn da bryd yn ôl yr amserlen gan CAA. Cafodd dderbyniad da gan yr ysgolion a bu'r ffigurau gwerthiant yn dda. Cyhoeddodd CAA hefyd ragor o lyfrau gwaith adolygu ar gyfer mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn gwyddoniaeth, cyhoeddodd CAA addasiadau o lyfrau adolygu Cyfnod Allweddol 3 a ffeiliau AAA yn rhan o'r gyfres *Gwefr Gwyddoniaeth*.

#### Pynciau sylfaen

Roedd cyhoeddi deunyddiau *Sglein ar y Sgiliau* yn garreg filltir arall yn y gwaith a gomisiynwyd. Cynhyrchwyd y deunyddiau hyn ochr yn ochr â threialu a datblygu manyleb arholiad newydd ar gyfer cwrs Cymraeg ail iaith galwedigaethol 16+. Bydd yn gysail defnyddiol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm ac adnoddau cyfatebol. Cyhoeddodd CAA hefyd *Y Chwiliadur Iaith* sef llawlyfr a llyfr o ymarferion yn cyflwyno gramadeg a phatrymau iaith ar gyfer disgyblion Cymraeg ail iaith Cyfnodau Allweddol 3/4.

Cwblhawyd eleni dri phroject mewn hanes a daearyddiaeth a arweiniodd at gyhoeddi cylchgronau blynyddol yn cynnwys erthyglau gwreiddiol a rhai wedi'u cyfieithu ar gyfer disgyblion 16+. Croesawyd cael ychydig o ddeunyddiau newydd yn Gymraeg bob blwyddyn gan athrawon a disgyblion fel ei gilydd. Datblygiad mwy diweddar fu cyhoeddi rhifyn cyntaf cylchgrawn daearyddiaeth newydd ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3 gan CAA trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Lansiodd UWIC safwe [www.celfcymru.info](http://www.celfcymru.info) ar gyfer disgyblion sy'n astudio celf ar lefel ysgolion cynradd ac uwchradd. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Trwy gydweithrediad CBAC cyhoeddwyd gan Hodder destun Addysg Grefyddol TGAU drwy




gyfrwng y Gymraeg. Dyma gynsail defnyddiol arall ar gyfer comisiynu gwaith yn y dyfodol.

#### Targed allweddol:

Cynnal gwerthiant gros deunyddiau a gomisiynwyd ar lefel dros £500,000 y flwyddyn.

Mae ffigurau gwerthiant yn cael eu casglu bob chwe mis ar gyfer projectau cyflawn. Gwelir yn y tabl y ffigurau ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.



Mae digon o dystiolaeth anecdotaidd gan y rhai hynny sydd ynghlwm wrth farchnata a gwerthu'r adnoddau yma fod cyllidebau mwy cyfyng ysgolion wedi effeithio ar werthiant eleni.

Datblygiadau penodol a gyflawnwyd o fewn yr amcan hwn:

Sicrhau bod pob un o'r projectau newydd a gomisiynwyd yn cynhyrchu deunyddiau ar gyfer disgyblion a fydd yn ateb yr anghenion a gafodd eu blaenoriaethu gan athrawon dosbarth.

- Cafodd y broses o ddewis a blaenoriaethu'r deunyddiau i'w cyhoeddi ei seilio ar gyngor 12 panel o athrawon sy'n dysgu pynciau ar draws holl ystod y cwricwlwm.

Sicrhau bod y cyhoeddwy'r a gomisiynwyd yn cynhyrchu deunyddiau o ansawdd uchel yn brydlon ac yn unol â'r fanyleb a bennwyd.

- Caiff ansawdd yr holl ddeunyddiau a gomisiynir ei fonitro gan swyddogion pwnc ACCAC a fydd yn derbyn cymorth gan athrawon dosbarth.
- Cwblhawyd yn llwyddiannus ddau gwrs hyfforddiant ar gyfer darpar awduron deunyddiau Cymraeg ail iaith.

Datblygu a chyhoeddi dogfen strategaeth newydd ar gyfer 2003/04 – 2005/06.

- Cyhoeddir *Strategaeth Comisiynu Deunyddiau Cymraeg a Dwyieithog* ar gyfer yr Ystafell Ddosbarth 2003/04 – 2005/06 ym mis Mai 2003. Bydd yn sylfaen ar gyfer gwaith comisiynu ACCAC ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Gweithredu ymhellach er mwyn creu mwy o ymwybyddiaeth ynglŷn â'r deunyddiau a gyhoeddwyd.

- Cyhoeddwyd yr adolygiadau cyntaf o ddeunyddiau projectau ar [www.gwales.com](http://www.gwales.com) ac yng *Nghylchlythyr* yr Awdurdod ym mis Tachwedd 2002.
- Mae taflen nawr yn cael ei dosbarthu gyda *Chylchlythyr* ACCAC a thaflenni hysbysrwydd Cyngor Llyfrau Cymru bob tymor. Ceir yn y daflen fanylion am ddeunyddiau sydd newydd eu cyhoeddi.

Gwella sylfaen gwybodaeth yr Awdurdod a darparu gwybodaeth amserol ynghylch datblygiadau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

NOD

4

**Targed allweddol:**

Cynnal a datblygu ymhellach berthynas waith effeithiol gyda Chyngor Cenedlaethol-ELWa.

- Datblygir perthynas waith effeithiol yn barhaus a chydweithir ar nifer o broiectau yn cynnwys Framwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, y strategaeth ar gyfer cefnogi dwyieithrwydd a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a strategaethau dysgu effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dechrau ar e-ddysgu.

**Targed allweddol:**

Sicrhau bod ystadegau sy'n cwmpasu cylch gorchwyl cyfan ACCAC ar gael i'w gweld, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol.

- Cyhoeddwyd, *Llwyddiant mewn Arholiadau yng Nghymru 2001: Ystadegau am Gymwysterau* ym mis Mai 2002.

**Targed allweddol:**

Gwneud gwaith ymchwil mewn meysydd penodol mewn cydweithrediad â phartneriaid Ewropeaidd.

- Mae ACCAC wedi cyfrannu at raglen Consortium of Institutions for Development and Research in Education in Europe (CIDREE) sydd wedi canolbwyntio ar fewnfudwyr a lleiafrifoedd ethnig mewn addysg. Rhwydwaith o 19 o gyrff cwrwllwm ac ymchwil yw CIDREE sy'n gweithredu 15 system addysg ar draws Ewrop ynghyd ag aelodau cysylltiedig yn

Hong Kong ac UDA. Sbaen a arweiniodd y gwaith ar fewnfudwyr a lleiafrifoedd ethnig a chafwyd cyfraniadau hefyd gan Awstria, Lloegr, Yr Almaen, Hwngari, yr Iseldiroedd, Sweden a Chymru. Canlyniad hyn oll oedd cyhoeddi Blwyddlyfr CIDREE ar gyfer 2002 *A Europe of differences: educational responses for interculturalism*.

- Mewn cydweithrediad â CIDREE unwaith eto, cyfrannodd ACCAC at broiectau ymchwil eraill gan gynnwys gweithredu'n effeithiol agweddau trawsgwricwlaidd ar y cwrwllwm ac addysg sifig (dinasyddiaeth).

**Targed allweddol:**

Cyhoeddi a lledaenu gwybodaeth amserol ynglŷn â gwaith yr Awdurdod.

- Bu'r Awdurdod yn arddangos yng nghynhadledd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Cynhadledd Addysg Cymru, Eisteddfod yr Urdd, cynhadledd Cymdeithas Genedlaethol Plant Abl mewn Addysg (National Association for Able Children in Education – NACE) a'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2002.
- Cafodd tri rhifyn *Cylchlythyr* ACCAC eu cynhyrchu mewn da bryd. Caiff un ar hugain mil o gopiau o bob rhifyn eu hargraffu.
- Cyfarfu Fforwm Cymdeithas yr Athrawon ACCAC yn rheolaidd. Ymgynghorir â'r Gymdeithas hefyd fel mater o drefn yn ystod ymarferion ymgynghori.

**Gweithio gyda'n gilydd**

Cyfrannodd ACCAC at raglen CIDREE a ganolbwyntiai ar fewnfudwyr a lleiafrifoedd ethnig mewn addysg. Canlyniad hyn oll oedd cyhoeddi Blwyddlyfr CIDREE ar gyfer 2002 *A Europe of differences: educational responses for interculturalism*. Yn y cyhoeddiad yma, ceir golwg ar bolisiau a phrofiadau darpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion o leiafrifoedd ethnig ar draws Ewrop. Mae'r cynnwys yn adlewyrchu'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn yr addysg a fydd yn ei gynorthwyo i wireddu ei botensial a bod pob cymdeithas yn cael ei chyfoethogi gan yr amrywiaeth a gynigir gan ei lleiafrifoedd ethnig.





- Cyfarfu Fforwm y Cyrff Dyfarnu ACCAC, y Fforwm Addysg Uwch a Fforwm Addysg Alwedigaethol Cymru gyfan oll yn rheolaidd.

Roedd y canlynol ymhlith y cynlluniau penodol a gyflawnwyd o fewn yr amcan hwn:

Parhau i weithredu'r Mynegai Gwella Ysgolion ar gyfer ysgolion sydd â'r gwelliant mwyaf o ran canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4.

- Mae dros dri chwarter yr ysgolion a gynhelir wedi cymryd rhan yn y Mynegai Gwella Ysgolion ar gyfer 2002 a chofrestrodd 176 o ysgolion. Dyma wythfed flwyddyn y cynllun a drefnir gan ACCAC ac a gefnogir gan Fanc HSBC.
- Derbyniodd yr enillydd rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, Ysgol Uwchradd Gatholig St. Joseph, Wrecsam, y Wobr Genedlaethol ar gyfer yr ysgol â'r gwelliant mwyaf o ran canlyniadau arholiadau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2002. Derbyniodd Ysgol Gyfun y Barri, Bro Morgannwg, yr enillydd rhanbarthol ar gyfer De Cymru, y Wobr Genedlaethol ar gyfer yr ysgol â'r gwelliant gorau ond un.
- Aeth y tair gwobr ranbarthol arall i'r canlynol: Ysgol Uwchradd Gwernyfed, Powys; cyn-enillydd Ysgol Gyfun Sandfields, Port Talbot; ac Ysgol Uwchradd Gatholig St Alban's, Pont-y-pŵl.

Datblygu'r safwe ymhellach.

- Mae'r Awdurdod yn paratoi i lansio safwe newydd yn gwanwyn 2004. Gobeithir y bydd defnyddwyr yn ei chael hi'n haws i'w defnyddio wrth i'r Awdurdod weithio at dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o'i chynllun Cymru Ar-Lein.

Gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi archwilio anghenion busnesau o ran sgiliau mewn ieithoedd tramor.

- Mewn ymateb i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru *ieithoedd sy'n Cyfrif*, sefydlwyd Grŵp Llywio Archwiliad o Alluoedd Medrau Iaith Cymru. Cynrychiolwyd ACCAC ar y grŵp hwn a roddodd gefnogaeth i fwrdd i gynhyrchu archwiliad cynhwysfawr gan LNTO ac Interact International. Bu'r archwiliad yn fan cychwyn i asesu'r sefyllfa ym maes ieithoedd tramor yng Nghymru, gan weld beth oedd y galw a'r ddarpariaeth sy'n bod yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd ar gael gan LNTO.
- Rhoddodd y Grŵp ei gefnogaeth hefyd i'r project *Reflect* a aeth ati i wneud arolwg o'r anghenion o safbwynt hyfforddiant ieithyddol a diwylliannol. Aed ati i wneud dadansoddiad cymharol o ganlyniadau'r arolwg gan ddefnyddio cymariaethau Ewropeaidd. Mae'r astudiaeth yma ar gael gan Interact International.





### Parhau i fod yn weithredol gyda Phartneriaeth Sgiliau i'r Dyfodol Cymru.

- Cynrychiolir ACCAC ar y Fforwm Ymchwil a'r Fforwm Marchnata yn ogystal â cymryd rhan ar y Grŵp Monitro a Chynghori er mwyn datblygu'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Gwaith.

### Cyhoeddiadau

(dwyieithog oni nodir yn wahanol)  
Cyhoeddiadau a ddosbarthwyd gan yr Awdurdod yn ystod 2002/03:

### Deunyddiau Corfforaethol

Cynllun Corfforaethol 2002/03 – 2004/05  
Cynllun Corfforaethol 2003/04 – 2005/06<sup>1</sup>  
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ACCAC ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2002<sup>1</sup>  
Cynllun yr Iaith Gymraeg  
Cylchlythyr 14: Mehefin 2002<sup>1</sup>  
Cylchlythyr 15: Tachwedd 2002<sup>1</sup>  
Cylchlythyr 16: Mawrth 2003<sup>1</sup>  
Taflen Comisiynu 1: Mehefin 2002  
Taflen Comisiynu 2: Tachwedd 2002  
Taflen Comisiynu 3: Mawrth 2003  
Catalog Adnoddau ACCAC 2002/03

### Deunyddiau ar gymwysterau

Cod ymarfer TGAU, TGAU mewn pynciau galwedigaethol, TAG, TAA a GNVO 2002<sup>1</sup>  
Cod Ymarfer NVO (Cyfrwng Gymraeg)<sup>2</sup>  
Y Defnydd o'r Gymraeg wrth gyflwyno ac asesu Cymwysterau Cysylltiedig â Galwedigaeth  
Y Defnydd o'r Gymraeg wrth gyflwyno ac asesu Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol  
TGAU mewn pynciau galwedigaethol

### Taflen TAA

Rheoliadau asesuadau cyfrwng Gymraeg a deul o gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol cyffredinol<sup>2</sup>

### Cwricwlwm Cenedlaethol

Addysg a Chyfarwyddyd  
Gyrfaoedd – Cyfarwyddyd Atodol<sup>1</sup>  
Cysylltiadau rhwng ABCh, AChG a AGG mewn addysg uwchradd<sup>1</sup>  
Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang<sup>1</sup>

### Deunydd Cyfarwyddyd i gynorthwyo ag asesuadau athrawon

Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Saesneg  
Cyfnod Allweddol 1\*  
Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Gymraeg  
Cyfnod Allweddol 1\*  
Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Gymraeg  
Cyfnod Allweddol 2\*  
Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer TG Cyfnod Allweddol 2  
Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer mathemateg Cyfnod Allweddol 2  
Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer hanes Cyfnod Allweddol 2  
Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer dylunio a thechnoleg Cyfnod Allweddol 2  
Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Gymraeg  
Cyfnod Allweddol 3\*

**Cylch Asesu Statudol 2003**

Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2003 ar gyfer Cyfnod Allweddol 1<sup>1</sup>

Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2003 ar gyfer Cyfnod Allweddol 2<sup>1</sup>

Trefniadau Asesu ac Adrodd Statudol 2003 ar gyfer Cyfnod Allweddol 3<sup>1</sup>

Tasgau Saesneg Cyfnod Allweddol 2 2003\*

Tasgau Cymraeg Cyfnod Allweddol 2 2003\*

Tasgau Cymraeg Cyfnod Allweddol 3 2003\*

Tasgau Cymraeg\*, Saesneg\*, gwyddoniaeth, mathemateg Cyfnodau Allweddol 2 a 3

**Cylch Asesu Statudol 2002**

Cynlluniau marcio ar gyfer Saesneg Cyfnod Allweddol 2\*

Cynlluniau marcio ar gyfer Cymraeg Cyfnod Allweddol 2\*

Cynlluniau marcio ar gyfer gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2

Cynlluniau marcio ar gyfer mathemateg Cyfnod Allweddol 2

Cynlluniau marcio ar gyfer Cymraeg Cyfnod Allweddol 3\*

Cynlluniau marcio ar gyfer Saesneg Cyfnod Allweddol 3\*

Cynlluniau marcio ar gyfer gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3

Cynlluniau marcio ar gyfer mathemateg Cyfnod Allweddol 3

Cyfnod Allweddol 2 taflen Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu

Cyfnod Allweddol 3 taflen Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu mewn Cymraeg\*

Cyfnod Allweddol 3 taflen Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu mewn Saesneg\*

Cyfnod Allweddol 3 taflen Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu mewn gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 3 taflen Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu mewn mathemateg

Cyfnod Allweddol 2 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Cymraeg\*

Cyfnod Allweddol 2 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Saesneg\*

Cyfnod Allweddol 2 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 2 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – mathemateg

Cyfnod Allweddol 3 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Cymraeg\*

Cyfnod Allweddol 3 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – Saesneg\*

Cyfnod Allweddol 3 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 3 Goblygiadau ar gyfer Addysgu a Dysgu – mathemateg

Cyfnod Allweddol 2 Ffiniau Lefel ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth<sup>1</sup>

Cyfnod Allweddol 3 Ffiniau Lefel ar gyfer Saesneg\*<sup>1</sup>

Cyfnod Allweddol 3 Ffiniau Lefel ar gyfer gwyddoniaeth<sup>1</sup>

Cyfnod Allweddol 2 Ffiniau Lefel ar gyfer mathemateg <sup>1</sup>

<sup>1</sup> Ar gael ar safwe ACCAC hefyd

<sup>2</sup> Ar gael ar safwe ACCAC yn unig

\* Ar gael yn yr iaith a nodwyd yn unig

### Deunyddiau Sgiliau Allweddol

Profion Sgiliau Allweddol (Mehfin 2002)

Profion Sgiliau Allweddol (Awst 2002)

Profion Sgiliau Allweddol (Tachwedd 2002)

Profion Sgiliau Allweddol (Ionawr 2003)

Cyfarwyddyd ar y Sgiliau Allweddol ehangach:  
Gweithio gydag eraill, Gwella eich Dysgu a'ch  
Perfformiad eich Hun a Datrys Problemau  
Lefelau 1– 4 (trwy gyfrwng y Gymraeg)

### Ymchwil a deunyddiau arall

Gofyn Cwestiynau – Cael Atebion: Llwyddiant  
mewn Arholiadau yng Nghymru Ystadegau  
Cymwysterau: TAG, TGAU, GNVO, TCA 2001  
Geirfa ddiweddaraf Cymwysterau  
Galwedigaethol<sup>2</sup>  
Sgiliau ar draws y cwricwlwm Cyfnodau  
Allweddol 1–3<sup>1</sup>



## Sicrhau sefydliad sy'n gynyddol effeithiol ac effeithlon.

NOD

5

### Targed allweddol:

Cynnal trefniadau cynllunio strategol a chorfforaethol cadarn.

- Cymeradwywyd y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 gan yr Awdurdod ym mis Gorffennaf 2002 a derbyniwyd adroddiad archwiliad diamwys gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i ddosbarthwyd ym mis Hydref 2002.
- Cyhoeddwyd y *Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2003/04 i 2005/06* ym mis Ionawr 2003.
- Cymeradwyodd y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2003/04 ym mis Ebrill 2003.

### Traged allweddol:

Sicrhau gwerth am arian a gweithredu rheolaeth ariannol gadarn.

- Mae'r Awdurdod wedi parhau i gydymffurfio â gofynion y Memorandwm Ariannol ac arferion da cyfrifeg.
- Mae perfformiad yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r cod talu'n brydlon wedi cyrraedd 98 y cant ar gyfer y flwyddyn hon.
- Mae ACCAC wedi darparu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru y dogfennau cychwynnol mewn perthynas â'r adolygiad pum mlynedd o'r Awdurdod sydd ar fin cael ei gynnal.

### Targed allweddol:

Datblygu a chynnal arferion rheoli personél priodol.

- Mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud yn datblygu Polisi Cydbwysedd Bywyd/Gwaith mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a thîm project o Chwarae Teg. Y bwriad yw lansio'r polisi ym mis Mehefin 2003.
- Cytunwyd ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyfle Cyfartal sy'n ymgorffori argymhellion Adroddiad Roger McKensie ar Hiliaeth mewn Sefydliadau, a chaiff ei lansio ym mis Gorffennaf 2003.

### Gwybodaeth ychwanegol

- Symudodd rhai aelodau o'r staff i ail swyddfa ACCAC yn Nhŷ Southgate, Caerdydd ym mis Gorffennaf 2002.
- Cyflwynwyd cynllun rheoli asedau'r Awdurdod i'r Cynulliad ym mis Awst 2002.
- Mae'r Awdurdod wedi parhau i weithredu ei Strategaeth Technoleg Gwybodaeth.
- Bu Rheoli Risg yn flaenoriaeth uchel ar gyfer yr Awdurdod eleni ac aed ati i sefydlu a gweithredu strategaeth gynhwysfawr o reoli risg. Caiff ei adolygu yn y flwyddyn ariannol i ddod.

### John V Williams

Prif Weithredwr  
Swyddog Cyfrifeg  
3 Gorffennaf 2003

**Creu cydbwysedd**

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd cryn dipyn ar Bolisi Cydbwysedd Bywyd a Gwaith yr Awdurdod. Gwnaed hyn mewn partneriaeth â'r undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol a thîm project Chwarae Teg. Nod y polisi yw cynnal effeithiolrwydd y sefydliad, os nad ei gynyddu, gan ysgogi ei staff drwy gynnig trefniadau gweithio hyblyg – a diwallu anghenion pawb.



**34** Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC



ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003

#### **Cefndir hanesyddol a statudol**

Sefydlwyd yr Awdurdod yn wreiddiol o dan Adran 14 Deddf Diwygio Addysg 1988 fel Cyngor Cwricwlwm Cymru. Darparodd Adran 253 Deddf Addysg 1993 ar gyfer ehangu swyddogaethau'r Cyngor a'i ailenwi'n Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 1994. Cadarnhawyd y darpariaethau statudol sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod yn Adrannau 360 a 361 ac Atodlen 30 Deddf Addysg 1996.

Yn weithredol o 1 Hydref 1997, yn rhinwedd Deddf Addysg 1997, ailenwyd yr Awdurdod yn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (yr Awdurdod), gan ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol dros gymwysterau allanol, galwedigaethol ac academaidd.

Mae'r Awdurdod yn elusen a eithrir o dan Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993.

Ar 1 Gorffennaf 1999, daeth yr Awdurdod yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ariannu'r Awdurdod o'r Swyddfa Gymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda sêl bendith y Trysorlys. Gellir cael copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon drwy gysylltu â'r Awdurdod yn ei swyddfeydd yn Adeiladau'r Castell, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1SX.

#### **Prif weithgareddau**

Pwrpas yr Awdurdod yw hyrwyddo addysg a hyfforddiant yng Nghymru gyda'r nod o hybu ansawdd a chydlyniaid. Rhoddir mwy o fanylion yn yr Adroddiad Blynyddol.

#### **Ymchwil a datblygu**

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw waith ymchwil pur o dan Amcan 4. Fodd bynnag, cwblhawyd amryw o weithgareddau ymchwil a gyfrannai at waith yr Awdurdod o dan raglenni gwaith eraill.

**36 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC****Rhagair i'r Cyfrifon**

ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003

**Aelodau'r Awdurdod**

Mae aelodaeth yr Awdurdod yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd, a hyd at dri ar ddeg aelod arall, oll wedi eu penodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel arfer am gyfnod o dair blynedd yn y lle cyntaf.

Gwasanaethodd yr aelodau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Mr Brian Connolly OBE – Cadeirydd

Mr Owen Rees CB – Dirprwy Gadeirydd

Mr Alan Boxford OBE (ymddeolodd 31 Mawrth 2003)

Mrs Eileen Davies

Mrs Sandra Davies OBE

Mrs Katija Dew

Mrs Jennifer Evans

Mr Roger Evans

Mr Robert Fowler

Mr Emlyn Jones OBE (ymddeolodd 31 Mawrth 2003)

Mr Chris Kipling (ymddeolodd 31 Mawrth 2003)

Mr Stuart Mathias (ymddeolodd 31 Mawrth 2003)

Mrs Susan Parsons OBE (ymddeolodd 31 Mawrth 2003)

Dr Pauline Peregrine

Dr Bryn Roberts

Rhoddir manylion pellach yn yr Adroddiad Blynyddol.

Mae cofrestr o fuddiannau'r Aelodau wedi ei sefydlu. Mae ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd yr Awdurdod.

Gwasanaethodd y canlynol fel Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn – Mr Alan Boxford (Cadeirydd), Mrs Jennifer Evans, Mr Roger Evans, Mr Chris Kipling, Mrs Susan Parsons a Dr Pauline Peregrine.

**Canlyniadau'r flwyddyn**

Gwarged yr Awdurdod am y flwyddyn oedd £450,000 (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2002 – diffyg o £210,000). Mae'r swm hwn wedi ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn. Yr incwm gros a gredydwyd i'r cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn oedd £12,352,000 (2001/2002 – £10,659,000).

Ar 31 Mawrth 2003, roedd asedau net o £310,000 (31 Mawrth 2002 – rhwymedigaethau net o £328,000) a diffyg ar y cyfrif incwm a gwariant o £263,000 (31 Mawrth 2002 – £713,000).

Mae natur gweithrediadau'r Awdurdod yn golygu bod swm sylweddol o waith yn cael ei gwblhau neu'n dwyn ffrwyth ar ddiwedd neu tua diwedd y flwyddyn ariannol – er enghraifft, argraffu profion statudol. Yn ogystal, mae rhywfaint o'r gwaith yn parhau o hyd ar ddiwedd y flwyddyn sy'n golygu bod y taliad yn cael ei wneud gan yr Awdurdod rai misoedd ar ôl diwedd y flwyddyn – er enghraifft, darparu cymorth ariannol ar gyfer cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Er bod nifer mawr o daliadau yn cael eu gwneud yn union cyn diwedd y flwyddyn (dros £2,500,000 ym mis Mawrth y tair blynedd diwethaf), mae ffigur y credydwyd ar ddiwedd unrhyw flwyddyn bob amser yn uchel am y rhesymau a nodwyd uchod. Ceir arian o gymorth grant i dalu'r credydwyd hyn yn y flwyddyn ariannol ddilynol, ac felly mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes byw. Oherwydd rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth nid yw'n bosib rhagweld derbyn yr incwm hwn ymlaen llaw.

**Datblygiadau sylweddol**

Yn ystod y flwyddyn mae'r Awdurdod wedi'i ymrwymo i gytundebau prydlesu ar gyfer rhentu swyddfeydd ychwanegol yn Nhŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd. Llofnodwyd y prydlesau ar 3 Ebrill 2002. Symudodd rhai aelodau o staff yr Awdurdod i'r swyddfeydd hyn ym mis Gorffennaf 2002. Nodir yr ymrwymadau o dan y prydlesau yn nodyn 16 i'r cyfrifon.

**Asedau sefydlog**

Amlinellir symudiadau mewn asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn yn nodyn 8 i'r cyfrifon.

Gwariwyd swm sylweddol o'r gwariant cyfalaf, sef oddeutu £360,000, yn ailwampio swyddfeydd ychwanegol yn Nhŷ Southgate ac yn rhannu'r gweithgareddau rhwng dau safle.

### Polisi cyflogaeth

Mae'r Awdurdod yn dilyn egwyddorion cyfle cyfartal wrth recriwtio, datblygu a dyrchafu staff. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am swyddi gan bawb, beth bynnag y bo eu rhyw, cefndir ethnig neu anableddau. Hysbysir cyflogeion yn rheolaidd ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt yn ysgrifenedig, neu drwy gyfrwng trafodaethau anffurfiol, ymgynghori â'r Undeb Llafur a, lle y bo'n berthnasol, cyfarfodydd hysbysu.

### Polisi talu

Mae'r Awdurdod yn llwyr ymrwymedig i dalu ei filiau'n brydlon, ac mae'n cefnogi Cod Ymarfer Talu'n Well y CBI. Nod yr Awdurdod yw talu pob bil nad oes amheuaeth yn ei gylch yn unol â'r amodau y cytunwyd arnynt mewn contractau neu, os nad oes amodau o'r fath yn bod, o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn y nwyddau a'r gwasanaethau neu ar ôl i anfoneb ddilys gael ei chyflwyno, pa un bynnag yw'r diweddaraf. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu trefn arbennig i fonitro ei berfformiad o ran talu biliau'n brydlon. Yn ystod y flwyddyn, talodd yr Awdurdod 98 y cant (2001/02 – 90 y cant) o filiau nad oedd amheuaeth yn eu cylch o fewn 30 diwrnod.

### Archwilydd

Archwilir cyfrifon yr Awdurdod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â pharagraff 17 Atodlen 5 Deddf Addysg 1997.

John V Williams  
Prif Weithredwr  
Swyddog Cyfrifeg  
3 Gorffennaf 2003

O dan baragraff 17 Atodlen 5 Deddf Addysg 1997, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi datganiad o'r cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r ffurf ac ar y sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratwir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn, ei incwm, ei wariant a'i lif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud fel a ganlyn:

- Dilyn Cyfarwyddyd y Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifeg a datgelu perthnasol a defnyddio polisiau cyfrifeg addas yn gyson.
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon yn rhesymol.
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddol perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau perthnasol yn y datganiadau ariannol.
- Paratwir datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni fydd yn amhriodol tybio y bydd yr Awdurdod yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifeg yr Awdurdod. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifeg, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano ac am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

Fel Swyddog Cyfrifeg, mae gennyf gyfrifoldeb dros sicrhau system gadarn o reoli sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisiau, nodau ac amcanion yr Awdurdod, a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r Awdurdod yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd arnaf i yn 'Cyfrifeg y Llywodraeth'.

Bwriedir i'r system reoli fewnol reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Seilir y system reoli fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi'r prif risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion yr Awdurdod; gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Bu'r broses yma yn weithredol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac mae'n cyd-fynd â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Fel Swyddog Cyfrifeg, mae gennyf gyfrifoldeb hefyd am adolygu effeithiolrwydd y system reoli fewnol. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu'r prosesau canlynol:

- Adolygiadau rheolaidd gan y Cadeirydd ac aelodau'r Awdurdod o'r perfformiad yn chwarterol ac yn flynyddol, yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Archwilio.
- Mae'r Uwch Dim Rheoli, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r pedwar Prif Weithredydd Cynorthwyol, yn cyfarfod bob mis i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol yr Awdurdod.
- Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio i gyfarfod yr Awdurdod sy'n dilyn gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.
- Adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ar y camau y maent yn eu cymryd i reoli risg yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain gan gynnwys adroddiadau cynnydd ar brojectau allweddol.
- Gweithdy, o dan arweiniad archwilyr mewnol, i nodi a chofnodi'r risg sy'n wynebu'r sefydliad.
- Sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol.
- Sefydlu a chynnal cofrestr risg ar gyfer y sefydliad cyfan.
- Adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwilio mewnol i safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwiliad Mewnol y Llywodraeth sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system reoli fewnol yr Awdurdod ynghyd ag argymhellion i wella.

Caiiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reoli fewnol ei lywio gan waith yr archwilyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwyllo gwaith yr archwilyr mewnol, y rheolwyr gweithredol o fewn yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, sylwadau a wneir gan archwilyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, a'm gwybodaeth i fy hun.

**John V Williams**  
Prif Weithredwr  
Swyddog Cyfrifeg  
3 Gorffennaf 2003

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 41 i 52 yn unol â Deddf Addysg 1997. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig a'r polisiau cyfrifeg a nodir ar dudalennau 44 i 45.

#### **Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod, y Prif Weithredwr a'r Archwilydd**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 38 mae'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Addysg 1997 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Awdurdod a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn cyflwyno fy marn gan nodi a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gawsant eu paratoi yn unol â Deddf Addysg 1997 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys, ac a yw'r gwariant a'r incwm ym mhob ystyr perthnasol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Awdurdod wedi cadw cofnodion cyfrifyddol cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac yn ystyried a yw'n gyson ai peidio â'r datganiadau ariannol a archwilwyd. Byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Byddaf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 39 yn adlewyrchu cydymffuriaeth yr Awdurdod ag arweiniad y Trysorlys 'Rheolaeth gorfforaethol: datganiad ar y system reoli fewnol'. Byddaf yn adrodd os nad yw'n ateb y gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall y byddaf yn ymwybodol ohoni o archwilio'r datganiadau ariannol.

#### **Sail y farn**

Cynhelais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a'r dyfarniadau a wneir gan yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifyddol yn briodol i amgylchiadau'r Awdurdod, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhelais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol fel y cawn dystiolaeth ddigonol a roddai i mi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai a fyddai wedi'i achosi drwy gamgymeriad neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall, a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob achos perthnasol, wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yw'r modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

#### **Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru ar 31 Mawrth 2003 yn ogystal â'r gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a chawsant eu paratoi yn gywir yn unol â Deddf Addysg 1997 a'r chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- ym mhob cyswllt perthnasol, cafodd y gwariant a'r incwm eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
11 Gorffennaf 2003

Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru  
3-4 Park Place  
Caerdydd CF10 3DP



**Cyfrif incwm a gwariant**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC

**41**

ar gyfer y flwyddyn yn diweddau 31 Mawrth 2003

	Nodiadau	<b>2002/03</b> £'000	2001/02 £'000
<b>Incwm gros</b>			
Cymorth grant	2	<b>12,075</b>	10,357
Arian cytundebau	3	–	87
Rhyddhau o gronfa grantiau wrth gefn y llywodraeth	13	<b>120</b>	109
Incwm gweithredol arall	4	<b>157</b>	106
		<b>12,352</b>	10,659
<b>Gwariant</b>			
Gwariant ar raglenni	5	<b>8,154</b>	7,661
Costau staff	6	<b>2,879</b>	2,523
Gwariant ar weinyddu	7	<b>749</b>	576
Dibrisiant	8	<b>120</b>	92
Cost dybiannol cyfalaf (credyd)		<b>(12)</b>	(20)
		<b>11,890</b>	10,832
<b>Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau gweithredu</b>	17a	<b>462</b>	(173)
Colled wrth waredu asedau sefydlog		–	(17)
Llog i'w dderbyn		<b>11</b>	13
Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf		<b>(12)</b>	(20)
<b>Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol</b>		<b>461</b>	(197)
<b>Neilltuadau</b>			
Symiau i'w hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	9	<b>(11)</b>	(13)
<b>Gwarged/(Diffyg) ar weithgareddau cymorth grant am y flwyddyn ariannol</b>		<b>450</b>	(210)
<b>Datganiad o ddiffyg a gadwyd</b>			
Diffyg a gadwyd a ddygwyd ymlaen		<b>(713)</b>	(503)
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		<b>450</b>	(210)
<b>Diffyg a gadwyd a gariwyd ymlaen</b>		<b>(263)</b>	(713)
Mae'r holl ffigurau uchod yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.			
<b>Datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig am y flwyddyn yn diweddau 31 Mawrth 2003</b>			
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		<b>450</b>	(210)
Symudiad yng nghronfa grantiau wrth gefn y llywodraeth	14	<b>188</b>	29
<b>Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n berthnasol i'r flwyddyn</b>		<b>638</b>	(181)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 52 yn rhan o'r chyfrifon hyn.

**42** Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC**Mantolen**

ar 31 Mawrth 2003

	Nodiadau	<b>31 Mawrth 2003 £'000</b>	31 Mawrth 2002 £'000
<b>Asedau sefydlog</b>			
Asedau cyffyrddadwy	8	<b>573</b>	302
<b>Asedau cyfredol</b>			
Stociau	10	<b>44</b>	43
Dyledwyr	11	<b>168</b>	103
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	17b	<b>187</b>	193
		<b>399</b>	339
<b>Credydwy</b>			
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	12	<b>(662)</b>	(969)
		<b>(263)</b>	(630)
<b>Rhwymedigaethau cyfredol net</b>		<b>(263)</b>	(630)
<b>Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>310</b>	(328)
<b>Cyllidwyd gan:</b>			
<b>Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn</b>			
Cronfeydd Grantiau Wrth Gefn y Llywodraeth	13	<b>573</b>	385
Cyfrif Incwm a Gwariant		<b>(263)</b>	(713)
<b>Cyfanswm arian y Llywodraeth</b>	14	<b>310</b>	(328)

John V Williams  
Prif Weithredwr  
Swyddog Cyfrifeg  
3 Gorffennaf 2003

**Datganiad Llif Arian**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC

**43**

ar gyfer y flwyddyn yn diweddau 31 Mawrth 2003

	Nodiadau	<b>2002/03</b> <b>£'000</b>	2001/02 £'000
Mewn-lif/(all-lif) arian parod net o'r gweithgareddau gweithredu	17a	<b>71</b>	(23)
<b>Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethau cyllid</b>			
Llog a dderbyniwyd		<b>10</b>	16
<b>Neilltuadau</b>			
Symiau a dalwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru		<b>(8)</b>	(16)
<b>Gweithgareddau buddsoddi</b>			
Taliadau i brynu asedau sefydlog cyffyrddadwy		<b>(387)</b>	(65)
<b>Cyllido</b>			
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	17c	<b>308</b>	138
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod	17b	<b>(6)</b>	50

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 52 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**44 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC****Nodiadau i'r Cyfrifon**

ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2003

**1. Polisiau cyfrifeg****1.1 Confensiwn cyfrifeg**

Paratwir y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol diwygiedig. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, maent yn bodloni gofynion cyfrifeg a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r Safonau Cyfrifeg a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg, i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn berthnasol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond nid yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORT) Elusennau.

Paratwir y cyfrifon hyn ar sail busnes byw. Fel y cyfeiriwyd yn y Rhagair i'r Cyfrifon ar dudalen 36, mae natur gweithrediadau'r Awdurdod yn golygu bod ffigur y credydwy'r ar ddiwedd unrhyw flwyddyn bob amser yn uchel. Mae cyllid cymorth grant i dalu'r credydwy'r yn cael ei dynnu i lawr yn y flwyddyn ariannol ddilynol, ac felly paratwir y cyfrifon ar sail busnes byw. Fodd bynnag, oherwydd rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth, nid oes modd rhagweld derbyn y cyllid hwn ymlaen llaw, sy'n golygu bod diffyg felly ar y cyfrif incwm a gwariant cronus ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y gweddill cronus ar y cyfrif incwm a gwariant yn aros fel diffyg oherwydd y gwahaniaeth mewn amseru.

**1.2 Asedau sefydlog**

Caiff y gwariant ei gyfalafu os disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd barhau am nifer o flynyddoedd ac os yw cost yr eitemau dros £500. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost, llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn yr Awdurdod, nid oes unrhyw wahaniaeth o bwys rhwng gwerth llyfr net hanesyddol yr asedau a chost gyfredol cael rhai newydd yn eu lle, llai dibrisiant.

**1.3 Dibrisiant**

Dibrisir pob ased sefydlog cyffyrddadwy ar gyfraddau y bwriedir iddynt ddileu'r gost, llai unrhyw amcangyfrif o werth gweddillol pob ased, yn gyfartal dros gyfnod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Gwelliannau yn y brydles – dros weddill cyfnod y brydles

Gwelliannau i'r drwydded – dros gyfnod cychwynnol y drwydded (gweler y nodyn isod)

Gosodiadau a ffitiadau – dros 10 mlynedd, neu weddill cyfnod y brydles, pa gyfnod bynnag yw'r byrraf

Offer swyddfa – dros chwe blynedd

Offer cyfrifiadurol – dros dair blynedd

Dibrisir asedau o'r mis pan gânt eu defnyddio am y tro cyntaf.

Mae'r Awdurdod wedi arwyddo cytundeb trwydded i rannu rhan o'r adeilad lle mae'r prif swyddfeydd ond a brydlesir gan denant arall (gweler nodyn 1.6). Dibrisir gwelliannau i'r rhan sy'n berthnasol i'r cytundeb trwydded fesul rhandaliadau cyfartal dros gyfnod cychwynnol y drwydded a ddaw i ben ar 24 Mehefin 2005.

#### 1.4 Arian cytundebau ac incwm gweithredol arall

Caiiff arian cytundebau ac incwm gweithredol arall ei gredu i incwm y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi.

#### 1.5 Grantiau'r Llywodraeth

Caiiff y grantiau a dderbynnir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurf cymorth grant at ddibenion gweithredu eu credydu fel incwm yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Caiiff y grantiau a dderbynnir ar gyfer gwariant cyfalaf eu credydu i gronfa grantiau wrth gefn y llywodraeth a throsglwyddir symiau perthnasol i'r cyfrif incwm a gwariant wrth i'r asedau cyfalaf gael eu defnyddio.

#### 1.6 Stoc

Mae'r stoc cyhoeddiadau wedi ei brisio ar lefel isaf y gost a'r pris sylweddoladwy net. Ym marn yr Awdurdod, nid oes unrhyw wahaniaeth o bwys rhwng cost hanesyddol y stoc a chost gyfredol adnewyddu'r stoc.

#### 1.7 Costau pensiwn

Mae darpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun â buddiannau diffiniedig ac sydd heb ei ariannu ac yn anghyfrannol, yn berthnasol i'r cyflogion presennol a chyn-gyflogion. Mae'r Awdurdod yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol yn ystod y cyfnod pan fydd yn elwa ar wasanaethau cyflogion drwy dalu symiau i'r PCSPS wedi eu cyfrifo ar sail gronnus. Codir rhwymedigaeth am daliadau buddiannau yn y dyfodol ar y PCSPS.

Mae gan Gadeirydd a chyn Gadeirydd yr Awdurdod drefniadau pensiwn sy'n gyfatebol i drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir y taliadau pensiwn gan yr Awdurdod allan o'r cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn daladwy (gweler nodyn 6).

#### 1.8 Treth ar Werth (TAW)

Nodir yr holl wariant a phob ased sefydlog a brynir yn y cyfrifon hyn gan gynnwys unrhyw TAW na ellir ei hadennill. O 1 Ebrill 2000 ymlaen, mae'r Awdurdod wedi ei gofrestru ar gyfer TAW.

#### 1.9 Cost cyfalaf

Yn unol â chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, caiff tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu'r gost gyfalaf a ddefnyddiwyd ei gynnwys yn y costau gweithredu ac fe'i cyfrifir yn ôl chwech y cant o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd.

#### 1.10 Ymchwil a datblygu

Telir costau gwariant ar ymchwil a datblygu o'r cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt godi.

**46 Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC****Nodiadau i'r Cyfrifon**

ar gyfer y flwyddyn yn diweddau 31 Mawrth 2003

**2. Cymorth grant**

	<b>2002/03</b>	2001/02
	<b>£'000</b>	£'000
Y swm derbyniadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	<b>12,383</b>	10,495
Y swm a dderbyniwyd i brynu asedau sefydlog (gweler y nodyn isod)	<b>(308)</b>	(138)
<b>Y cymorth grant a gredydwyd i'r cyfrif incwm a gwariant</b>	<b>12,075</b>	10,357

Gwariwyd £391,000 ar brynu asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn. Ariannwyd hyn gan gymorth grant cyfalaf o £308,000 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â £83,000 a dderbyniwyd yn ystod 2001/02 ac a gariwyd ymlaen yng nghyfrif Cronfa Grantiau Wrth Gefn y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2002.

**3. Arian cytundebau**

Yn ogystal â'r cymorth grant referniw a chyfalaf a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a nodwyd yn nodyn 2, derbyniodd yr Awdurdod y symiau canlynol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel arian cytundebau yn 2001/02. Ni dderbyniwyd arian cytundebau yn ystod 2002/03:

	<b>2002/03</b>	2001/02
	<b>£'000</b>	£'000
<b>Ffeil Cynnydd (Cofnod Cyrhaeddiad Cenedlaethol gynt)</b>	<b>–</b>	87

**4. Incwm gweithredol arall**

	<b>2002/03</b>	2001/02
	<b>£'000</b>	£'000
Gwerthu cyhoeddiadau	<b>36</b>	44
Incwm breindaliadau	<b>38</b>	52
Amrywiol	<b>83</b>	10
<b></b>	<b>157</b>	106

Mae'r incwm amrywiol yn cynnwys £69,000 a dderbyniwyd drwy'r OCA yn unol â'r fenter 'Invest to Save'. Defnyddiwyd y cyllid hwn i gyllido rhaglen variant sydd wedi ei chynnwys yn nodyn 5.

**5. Gwariant ar y rhaglenni**

	<b>2002/03</b>	2001/02
<b>Nod</b>	<b>£'000</b>	£'000
1 – Datblygu Fframwaith Cymwysterau cydlynol	<b>1,661</b>	1,309
2 – Datblygu fframwaith cwricwlwm ac asesu cydlynol ac integredig ar gyfer ysgolion	<b>4,764</b>	4,940
3 – Comisiynu deunyddiau ystafell ddosbarth	<b>1,500</b>	1,198
4 – Ymchwil a gwybodaeth; hysbysrwydd a chyhoeddusrwydd	<b>229</b>	214
<b></b>	<b>8,154</b>	7,661



**6. Costau staff**

	<b>2002/03</b>	2001/02
	<b>£'000</b>	£'000
Cylogau	<b>2,381</b>	2,087
Costau nawdd cymdeithasol	<b>166</b>	155
Costau pensiwn eraill	<b>332</b>	281
	<b>2,879</b>	2,523

Mae'r llythyr Annwyl Swydddog Cyfrifeg (DAO) 12/00 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu, cyn belled ag y bo'n gyson â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998, fanylion am oedran, cyflog (yn ôl bandiau tâl bras) a hawliadau pensiwn aelodau'r Awdurdod a staff uwch sydd â chyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau'r Awdurdod. Mae ffigurau cyflogau yn cynnwys tâl, unrhyw fonws perfformiad (Prif Weithredwr yn unig) ac unrhyw fuddiannau mewn nwyddau. Mae'r manylion i'w gweld isod.

	Oedran ar 31 Mawrth 2003	2002/2003 Cyflog (fel y diffinnir uchod)	2002/2003 Cynnydd mewn pensiwn yn 60 oed	2002/2003 Cyfanswm pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2003
Enw a theitl		£'000	£'000	£'000
<b>Brian Connolly</b> Cadeirydd	63	25–30	*	*
<b>Owen Rees</b> Dirprwy Gadeirydd	68	5–10	amhensiynadwy	amhensiynadwy
<b>John V Williams</b> Prif Weithredwr	56	70–75	0–2.5	5–10
<b>Linda Badham</b> Prif Weithredydd Cynorthwyol (Cymwysterau a Chwricwlwm 14–19)				Atal datgelu'r wybodaeth
<b>Huw Davies</b> Prif Weithredydd Cynorthwyol (Gwasanaethau Canolog a Chomisiynu)				Atal datgelu'r wybodaeth
<b>Ann Evans</b> Prif Weithredydd Cynorthwyol (Cymwysterau Galwedigaethol a Dysgu Gydol Oes)				Atal datgelu'r wybodaeth
<b>David Watcyn Jones</b> Prif Weithredydd Cynorthwyol (Cwricwlwm ac Asesu 5–14)				Atal datgelu'r wybodaeth

\* Mae gan Mr Connolly yr hawl i gael ei bensiwn ar ôl cwblhau ei gyfnod yn y swydd gyda'r Awdurdod.

**48 Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC****Nodiadau i'r Cyfrifon**

ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003

**6. Costau Staff (parhad)****Aelodau'r Awdurdod**

Mae'r Cadeirydd o dan contract i weithio dau ddiwrnod yr wythnos a'r Dirprwy Gadeirydd am ddau ddiwrnod y mis. Ni dderbyniodd Aelodau eraill yr Awdurdod unrhyw daliadau.

Mae gan y Cadeirydd drefniant pensiwn sy'n cyfateb i drefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir y taliadau pensiwn gan yr Awdurdod, o ddyddiad ei ymddeoliad, o gyllid cymorth grant a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'n bosib cadarnhau, gydag unrhyw sicrwydd, gyfanswm y pensiwn sy'n daladwy yn y dyfodol. Felly, caiff y taliadau pensiwn eu codi ar y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt gael eu talu.

Penodir pob Aelod am dymor penodedig, tair blynedd fel arfer yn y lle cyntaf. Bydd tymor presennol y Cadeirydd yn y swydd yn dod i ben ar 30 Medi 2004.

Enillion y Prif Weithredwr	2002/03 £'000	2001/02 £'000
Roedd hyn yn cynnwys:		
Cyflog	64	63
Bonws perfformiad	6	5
	70	68
Cyfraniadau pensiwn – 18.5% (2001/02 – 18.5%)	12	11
Cyfanswm	82	79

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae gan y Prif Weithredwr yr hawl i gael bonws perfformiad o hyd at 13 y cant o'i gyflog, o dan gynllun a sefydlwyd i fod yn weithredol o 1 Ebrill 1997. Mae elfen o hwn, a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gydgyfnerthedig, a thelir y gweddill fel bonws anghydgyfnerthedig, amhensiynadwy. Mae'r union swm sy'n daladwy yn dibynnu ar gyrraedd targedau penodol, a lefel perfformiad yn gyffredinol.

Mae'r bonws perfformiad o £6,248 ar gyfer 2002/03 yn daladwy mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003.

Nifer Staff	2002/03 Nifer	2001/02 Nifer
Nifer y gweithwyr bob mis ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd:		
Rheolwyr	5	5
Proffesiynol a Thechnegol	31	29
Staff cynorthwyol	54	49
	90	83

**Pensiynau**

Darperir buddion pensiynau drwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Dyma gynllun buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir ond ni all yr Awdurdod nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cyflawnwyd prisiad actiwaraid llawn ar 31 Mawrth 2003. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil ([www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)).

Ar gyfer 2002/03, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £332,000 yn daladwy i'r PCSPS (2001/02 £281,000) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 12 i 18.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflogau. Bydd cyfraddau yn aros yr un fath am y flwyddyn nesaf, yn amodol ar adbrisió'r bandiau cyflogau. Caiff cyfraniadau cyflogwyr eu hadolygu bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac adlewyrchant brofiad o'r cynllun yn y gorffennol.

O 1 Hydref 2002, gall y staff fod yn aelod o un o dri chynllun statudol â buddion diffiniedig ar sail y 'cyflog terfynol' (**classic**, **premium**, a **classic plus**). Gall aelodau newydd o'r staff a gyflogir ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r

cynllun premium neu ymuno â chynllun budd-ddeiliaid yn seiliedig ar 'bwrcasiad ariannol' gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

**(a) Y Cynllun 'Classic'**

Mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/80fed y cyflog pensynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hyn, mae un taliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy ar yr ymddeoliad. Mae aelodau'n talu cyfraniadau o 1.5 y cant o enillion pensynadwy. Os yw'r aelod yn marw, mae'r pensiwn yn daladwy i'r priod sy'n dal yn fyw ar raddfa o hanner pensiwn yr aelod. Os yw'r aelod yn marw tra bo'n dal i weithio, mae'r cynllun yn talu un taliad o ddwywaith y cyflog pensynadwy a hefyd yn rhoi mwyhad i'r gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod. Mae'r mwyhad yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn hwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl ar sail afiechyd difrifol. Yn yr achos hwn, daw'r pensiwn yn daladwy ar unwaith heb leihad yn ôl ystadegau yswiriant a gyda'r gwasanaeth wedi ei fwyhau yn yr un modd â phensiynau gweddwon.

**(b) Y Cynllun 'Premium'**

Mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/60fed y cyflog pensynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn annhebyg i'r cynllun classic, ni fydd un taliad yn cael ei dalu'n awtomatig, ond gall yr aelodau drosglwyddo rhywfaint o'u pensiwn er mwyn darparu un taliad hyd at uchafswm o 3/80fed o'u henillion pensynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth neu 2.25 gwaith y pensiwn os bydd yn fwy (y gyfradd trosglwyddo yw £12 o'r un taliad am bob £1 o'r pensiwn sy'n cael ei ildio). Gall yr aelodau gyfrannu 3.5 y cant o'u henillion pensynadwy. Os yw'r aelod yn marw mae'r pensiwn yn daladwy i'r priod neu'r partner cymwys sy'n dal yn fyw ar raddfa o 3/8 rhan o bensiwn yr aelod (cyn unrhyw drosglwyddiad). Os yw'r aelod yn marw tra bo'n dal i weithio, mae'r cynllun yn talu un taliad sydd deirgwaith yr enillion pensynadwy a hefyd yn rhoi mwyhad i'r gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod. Mae'r mwyhad yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn hwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl ar sail afiechyd difrifol. Yn yr achos hwn, daw'r pensiwn yn daladwy ar unwaith heb leihad activaraidd. Lle bydd afiechyd yr aelod yn ei rwystro'n barhaol rhag cael ei gyflogi i weithio, caiff y gwasanaeth ei fwyhau i'r hyn y byddai wedi'i gronni yn 60 oed.

**(c) Y Cynllun 'Classic Plus'**

Amrywiad ar y cynllun *premium* yw hwn mewn gwirionedd, ond cyfrifir y buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn yr un modd yn fras ag o dan y cynllun *classic*.

Cynyddir y pensiynau a fydd yn daladwy yn unol â'r cynlluniau *classic*, *premium*, a *classic plus* yn ôl y Mynegai Prisiau Adwerthu.

**(d) Cyfrif Pensiwn Partneriaeth**

Dyma gynllun sy'n seiliedig ar drefniant budd-ddeiliaid lle bydd y cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng tri y cant a 12.5 y cant (yn ddibynnol ar oed yr aelod) i gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu ond lle bydd yn dewis cyfrannu, caiff y cyfraniadau eu cyfateb gan y cyflogwr hyd at tri y cant (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd y cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o'r cyflog pensynadwy er mwyn talu'r gost o sicrhau cwfert budd risg (marwolaeth tra bo'r gweithiwr yn dal i weithio ac ymddeol ar sail afiechyd). Gall yr aelod ymddeol ar unrhyw adeg rhwng 50 a 75 oed a defnyddio'r swm a fydd wedi cronni i brynu pensiwn. Gall yr aelod ddewis derbyn hyd at 25 y cant o'r gronfa yma fel un taliad.

**7. Gwariant ar Weinyddu**

	2002/03 £'000	2001/02 £'000
Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch yr Aelodau	7	9
Costau eraill sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod	11	7
Costau adeiladau	262	145
Costau teithio a chynhaliaeth y cyflogeion	145	115
Costau swyddfa	198	163
Recriwtio a hyfforddi staff	58	75
Ffioedd proffesiynol	44	42
Taliadau archwilyr – gwaith archwilio	15	14
– gwaith sicrwydd ychwanegol	3	3
Arall	6	3
	<b>749</b>	<b>576</b>

Gellir priodoli'r cynnydd yn y gwariant ar weinyddiaeth yn 2002/03 yn bennaf i'r costau sy'n deillio o'r swyddfeydd ychwanegol gyda'r Awdurdod bellach yn gweithio ar ddau safle.

**50 Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC****Nodiadau i'r Cyfrifon**

ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003

**8. Asedau cyffyrddadwy**

	Gwelliannau prydles a thrwydded £'000	Gosodiadau a ffitiadau £'000	Offer swyddfa £'000	Offer cyfrifiadurol £'000	Cyfanswm £'000
<b>Cost neu brisiad</b>					
Ar 1 Ebrill 2002	285	63	120	359	827
Ychwanegiadau	184	29	134	44	391
Gwarediadau	–	(3)	(13)	(47)	(63)
<b>Ar 31 Mawrth 2003</b>	<b>469</b>	<b>89</b>	<b>241</b>	<b>356</b>	<b>1,155</b>
<b>Dibrisiant:</b>					
Ar 1 Ebrill 2002	125	26	91	283	525
Tâl am y flwyddyn	33	8	24	55	120
Gwarediadau	–	(3)	(13)	(47)	(63)
<b>Ar 31 Mawrth 2003</b>	<b>158</b>	<b>31</b>	<b>102</b>	<b>291</b>	<b>582</b>
<b>Gwerth llyfr net:</b>					
<b>Ar 31 Mawrth 2003</b>	<b>311</b>	<b>58</b>	<b>139</b>	<b>65</b>	<b>573</b>
<b>Ar 1 Ebrill 2002</b>	<b>160</b>	<b>37</b>	<b>29</b>	<b>76</b>	<b>302</b>

**9. Symiau i'w hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ildio llog a dderbyniwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Y swm a oedd yn daladwy:

	<b>2002/03</b>	2001/02
	<b>£'000</b>	£'000
Symiau i'w hildio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	<b>11</b>	13

**10. Stociau**

	<b>31 Mawrth</b>	31 Mawrth
	<b>2003</b>	2002
	<b>£'000</b>	£'000
Stoc o gyhoeddiadau gwerthadwy	<b>44</b>	43

Mae'r stoc o gyhoeddiadau gwerthadwy wedi ei ddatgan ar ôl tynnu'r ddarpariaeth o £181,000 (2002 – £183,000) a wnaed er mwyn lleihau cost y stoc i gyfateb â'r amcangyfrif o'i werth sylweddoladwy net.

**11. Dyledwyr a rhagdaliadau**

	<b>31 Mawrth</b>	31 Mawrth
	<b>2003</b>	2002
	<b>£'000</b>	£'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Dyledwyr eraill	<b>48</b>	48
Rhagdaliadau	<b>117</b>	52
	<b>165</b>	100
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:		
Rhagdaliadau	<b>3</b>	3
	<b>168</b>	103

## 12. Credydwy'r Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	31 Mawrth 2003 £'000	31 Mawrth 2002 £'000
Credydwy'r a chroniadau eraill	662	969

## 13. Cronfa grantiau wrth gefn y llywodraeth

	2002/03 £'000	2001/02 £'000
Ar 1 Ebrill	385	356
Cyfalaf cymorth grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn	308	138
Rhyddhawyd i'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn	(120)	(109)
Ar 31 Mawrth	573	385

## 14. Cysoni symudiad o ran arian y llywodraeth

	2002/03 £'000	2001/02 £'000
Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn	450	(210)
Symudiad yng Nghronfa Grantiau Wrth Gefn y Llywodraeth	188	29
Cynnydd/(gostyngiad) yn arian y llywodraeth am y flwyddyn	638	(181)
Arian y llywodraeth ar 1 Ebrill	(328)	(147)
Arian y llywodraeth ar 31 Mawrth	310	(328)

## 15. Ymrwymadau cyfalaf

	31 Mawrth 2003 £'000	31 Mawrth 2002 £'000
Wedi eu cytundebu	-	56

## 16. Prydlesau gweithredu

	2002/03 £'000	2001/02 £'000
(a) Symiau a dalwyd allan o'r cyfrif incwm a gwariant am daliadau prydlesau gweithredu	247	141

	31 Mawrth 2003		31 Mawrth 2002	
	Adeiladau (prydlesau a thrwydded) £'000	Eraill (ceir) £'000	Adeiladau (prydlesau a thrwydded) £'000	Eraill (ceir) £'000
(b) Ymrwymadau blynyddol i brydlesau'n dod i ben:				
O fewn blwyddyn	-	5	-	-
O fewn dwy i bum mlynedd	-	14	-	19
Ar ôl mwy na phum mlynedd	265	-	216	-
	265	19	216	19

**52 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/2003 ACCAC****Nodiadau i'r Cyfrifon**

ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003

**17. Nodiadau'r datganiad llif arian**

a) Cysoni'r gwarged gweithredu â'r llif arian parod net o'r gweithgareddau gweithredu:

	<b>2002/03</b>	2001/02
	<b>£'000</b>	£'000
Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau gweithredu	<b>462</b>	(173)
Tâl dibrisiant	<b>120</b>	92
Cost dybiannol y tâl cyfalaf	<b>(12)</b>	(20)
Rhyddhau o gronfa wrth gefn y Llywodraeth	<b>(120)</b>	(109)
Cynnydd mewn stoc	<b>-</b>	-
(Cynnydd) mewn dyledwyr gweithredol	<b>(64)</b>	(3)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr gweithredol	<b>(315)</b>	190
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o'r gweithgareddau gweithredu	<b>71</b>	(23)

b) Dadansoddiad o'r newidiadau o ran arian parod yn ystod y flwyddyn:

	<b>2002/03</b>	2001/02
	<b>£'000</b>	£'000
Gweddill ar 1 Ebrill	<b>193</b>	143
(All-lif)/mewnlif arian parod	<b>(6)</b>	50
Gweddill ar 31 Mawrth	<b>187</b>	193

c) Dadansoddiad o'r newidiadau o ran ariannu yn ystod y flwyddyn:

	<b>2002/03</b>	2001/02
	<b>£'000</b>	£'000
Cronfa grantiau wrth gefn y Llywodraeth:		
Ar 1 Ebrill	<b>385</b>	356
Mewnlif arian parod o'r cyllid	<b>308</b>	138
Trosglwyddo i'r cyfrif incwm a gwariant	<b>(120)</b>	(109)
Ar 31 Mawrth	<b>573</b>	385

**18. Safon cofnodi ariannol rhif 13: deilliadau ac offerynnau ariannol eraill**

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciadau a dibynna'n bennaf oll ar grantiau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwallu ei ofynion ariannol; nid yw felly yn agored i risg ar sail hylifedd. Nid oes ganddo ychwaith unrhyw adneuo'n o bwys ac mae ei holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol i gyd mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfraddau llog nac arian treigl.

**19. Trafodion gyda phartion cysylltiedig**

Ystyrir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd yr Awdurdod i drafodion gyda phartion eraill ar y cyd â'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm, sy'n derbyn nawdd oddi wrth yr Adran Addysg a Sgiliau.

**20. Rhwymedigaeth amodol**

Gwnaed cais mewn perthynas â therfynu contract yn erbyn yr Awdurdod. Mae sail a swm y cais yn cael ei herio. Mae'r Awdurdod o'r farn bod darpariaeth briodol wedi ei chynnwys o fewn credydwyr yn y cyfrifon hyn am y swm sy'n ddyledus o dan y contract a therfynu'r contract hwnnw. Mae'r Awdurdod yn ceisio dod i gytundeb boddhaol â'r asiantaeth dan sylw. Os nad yw hyn yn bosibl, yna gall yr Awdurdod fod yn agored i dalu swm pellach. Ni ddatgelir y rhwymedigaeth fwyaf posibl yma, fel y caniateir o dan Safonau Adroddiad Ariannol Rhif 12, oherwydd gallai datgeliad o'r fath fod yn niweidiol i sefyllfa'r Awdurdod.